



Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 253/2019

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 242/2018

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20

Cynulleidfa

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; cyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'r asesiadau personol ar-lein y bydd pob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 yn eu sefyll yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Mae'n rhoi canllawiau ar weinyddu'r profion a'r asesiadau personol, a threfniadau mynediad a datgymhwyso.

Camau i'w cymryd

Dylai penaethiaid ac aelodau staff sy'n gweinyddu'r profion papur ac yn hwyluso'r asesiadau personol ar-lein gyfeirio at y llawlyfr hwn am wybodaeth am y prosesau ar gyfer gweinyddu'r profion/asesiadau personol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: PDRC@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Rhan 1: Profion Cenedlaethol sydd ar bapur	4
Sefyll y profion	11
Ar ôl i'r profion gael eu sefyll	14
Rhan 2: Aseidiadau personol	18
Atodiad 1: Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – canllawiau ar weinyddu'r prawf	25
Atodiad 2: Canllawiau cyffredinol ar weinyddu'r aseidiadau personol	31
Atodiad 3: Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) – canllawiau gweinyddu	36
Atodiad 4: Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol – canllawiau gweinyddu	38
Atodiad 5: Trefniadau mynediad ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)	40
Atodiad 6: Addasiadau i aseidiadau personol	49
Atodiad 7: Datgymhwysu	53

Cyflwyniad

Yn 2019/20 bydd dysgwyr yn sefyll y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar bapur a bydd y profion ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen ar ffurf asesiadau ymaddasol ar-lein.

Mae'r 'Profion Cenedlaethol' yn cynnwys y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol. Mae'r Profion Cenedlaethol at ddefnydd **ffurfiannol**, er mwyn i athrawon ym mhob ysgol a gynhelir gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr, a dealltwriaeth gyffredin o gryfderau a meysydd i'w gwella o safbwynt y sgiliau hynny.

Mae'r Profion Cenedlaethol (papur ac ar-lein) yn canolbwyntio ar ddeall cynnydd dysgwyr, yn hytrach na pherfformiad neu atebolrwydd yr ysgol.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr cymwys mewn ysgolion a gynhelir sefyll y Profion Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol eu bod yn disodli unrhyw brofion darllen a rhifedd a ddefnyddiwyd mewn ysgolion cyn iddynt gael eu cyflwyno, yn hytrach na'u hategu.

Mae'r llawlyfr hwn yn rhan o lawlyfr gweinyddu'r Profion Cenedlaethol ('llawlyfr gweinyddu'r PC') at ddibenion Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd (Cymru) 2013. Mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r Profion Cenedlaethol i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Mae'r Profion Cenedlaethol ar-lein wedi bod yn cael eu cyflwyno'n raddol yn unol â'r amserlen isod. Mae'r llawlyfr hwn yn cyfeirio at y Profion Cenedlaethol **ar-lein** fel 'asesiadau personol'.

Blwyddyn academaidd	Rhifedd (Gweithdrefnol)	Darllen (Cymraeg a Saesneg)	Rhifedd (Rhesymu)
2019/20	Ar-lein	Ar-lein	Papur
2020/21	Ar-lein	Ar-lein	Ar-lein

Ym mlwyddyn academaidd 2019/20, bydd yn ofynnol i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys rhai cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyr, gwirfoddol a reolir, a sefydledig) sefyll yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) **ar-lein**, a'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol **ar-lein**, yn ogystal â'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) **sydd ar bapur**.

Yr amserlen asesu ar dudalen 4 o'r ddogfen hon yw amserlen asesu'r Profion Cenedlaethol ('Amserlen asesu'r PC') ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) at ddibenion y rheoliadau uchod. Gall asesiadau personol gael eu sefyll drwy gydol y flwyddyn ysgol.

Lles dysgwyr

Diben y Profion Cenedlaethol (papur ac ar-lein) yw bod yn ffurfiannol, gan alluogi athrawon i asesu sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr yn datblygu a defnyddio'r asesiad hwnnw i lywio gweithgarwch addysgu.

Ni ddylai'r Profion Cenedlaethol achosi gofid na phryder i ddysgwyr ac mae'n bwysig iawn bod ysgolion yn rhoi sylw i'r ffordd y cânt eu cyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn osgoi achosi unrhyw straen. Er ei bod yn arfer da helpu dysgwyr i ddod yn gyfarwydd â fformat y cwestiynau, mae rhoi gormod o bwyslais ar baratoi, 'ymarfer' gyda chwestiynau hen brofion a defnyddio cwestiynau profion fel gwaith cartref yn amhriodol yng nghyd-destun profion ffurfiannol a gall hefyd achosi pryder i ddysgwyr, yn enwedig y rhai ieuangaf. Disgwylir i bob ysgol gadw at gwricwlwm eang a chytbwys drwy gydol y flwyddyn ysgol, gan gynnwys y cyfnod cyn sefyll y Profion Cenedlaethol.

Rhan 1: Profion Cenedlaethol sydd ar bapur

Amserlen asesu'r Profion Cenedlaethol

Mae'r amserlen ganlynol yn berthnasol i'r **Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)** sydd ar bapur yn 2020.

Cyhoeddi llawlyfr gweinyddu'r profion	Hydref 2019
System Archebu Profion Cenedlaethol ar gael	30 Hydref 2019–22 Tachwedd 2019
Cadarnhau archebion profion yn derfynol	16 Rhagfyr 2019
Profion yn cael eu dosbarthu i ysgolion ¹	Ysgolion cynradd: wythnos yn dechrau 20 Ebrill 2020 Ysgolion uwchradd: wythnos yn dechrau 30 Mawrth 2020
Ysgolion yn cynllunio amserlenni'r profion	O fis Hydref 2019 ymlaen
Ymgwyfarwyddo â gofynion gweinyddu'r profion: Defnyddio'r llawlyfr hwn ar weinyddu profion, canllawiau mynediad a datgymhwyso, a'r canllawiau penodol ar weinyddu profion i gynllunio ar gyfer y profion. Trafod unrhyw ddyddiadau perthnasol â'r awdurdod lleol ar gyfer lanlwytho data a marcio, a rhannu dyddiadau arfaethedig ysgolion ar gyfer cynnal y profion.	O ddyddiad cyhoeddi'r llawlyfr hwn, <i>Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2019/20</i>
Ysgolion yn gweinyddu'r profion	Ysgolion cynradd: 28 Ebrill 2020–5 Mai 2020 Ysgolion uwchradd: 21 Ebrill 2020–5 Mai 2020 Ysgolion canol: 21 Ebrill 2020–5 Mai 2020
Marcio	Erbyn y dyddiad a bennir gan yr awdurdod lleol ar gyfer gofynion Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru

¹Bydd ysgolion uwchradd, ysgolion canol a lleoliadau eraill sy'n archebu profion ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd yn derbyn deunyddiau ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9 yn ystod yr wythnos yn dechrau 30 Mawrth 2020 a deunyddiau ar gyfer Blynyddoedd 2 i 6 yn ystod yr wythnos yn dechrau 20 Ebrill 2020.

Lanlwytho data fel rhan o broses Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru	Fel y pennir gan yr awdurdod lleol, ond erbyn 2 Mehefin 2020 fan bellaf
Canlyniadau i ysgolion i'w rhoi i rieni a gofalwyr	Erbyn diwedd tymor yr haf

Archebu papurau prawf

Mae ysgolion yn archebu profion ar gyfer eu dysgwyr drwy wefan Archebu Profion Cenedlaethol yn archebuprofion.profioncenedlaethol.cymru

Mae hon yn wefan ddiogel sy'n gofyn am ddefnyddio cyfrinair a manylion mewngofnodi unigryw. Bydd pob ysgol sy'n gymwys i archebu Profion Cenedlaethol yn cael llythyr yn nodi ei chyfrinair a'i manylion mewngofnodi i'w defnyddio unwaith bydd y system yn fyw. Bydd y system yn mynd yn fyw ar 30 Hydref 2019, a chaiff ysgolion eu hysbyu am eu cyfrinair erbyn y dyddiad hwnnw.

Mae'n ofynnol i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys rhai cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir, a sefydledig) sefyll y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) sydd ar bapur.

Caiff ysgolion annibynnol yr opsiwn o archebu profion papur i'w defnyddio gyda'u dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9. Codir ffi i dalu am gostau eu hargraffu a'u dosbarthu².

Mae angen i ysgolion archebu digon o brofion ar gyfer eu dysgwyr yn y cyfrwng iaith cywir ar gyfer cyd-destun eu hysgol. Mae'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar gael naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath, fel bod dysgwyr yn gallu sefyll y profion yn yr iaith sydd fwyaf priodol iddynt. Nodwch ei bod yn bosibl archebu Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn y naill iaith neu'r llall neu yn y ddwy iaith, yn unol ag arfer safonol eich ysgol.

Mae'n rhaid nodi manylion un enw cyswllt ynghyd ag archeb prawf er mwyn gallu cadarnhau'r archebion a datrys unrhyw broblemau. **Mae'n rhaid i bob archeb gael ei chwblhau erbyn 22 Tachwedd 2019.**

Cyn archebu, dylai ysgolion ystyried y nodiadau yn y llawlyfr hwn ar gyfrwng iaith profion, trefniadau mynediad, defnyddio profion sydd wedi'u haddasu a threfniadau datgymhwyso.

Caiff deunyddiau profion safonol a deunyddiau profion wedi'u haddasu eu hanfon ar wahân. Bydd pob set o ddeunyddiau a anfonir yn cynnwys cynlluniau marcio, canllawiau ar weinyddu'r profion, sgrïptiau i athrawon a deunyddiau ysgogi.

² Ni ellir cynnwys canlyniadau profion ysgolion annibynnol fel rhan o'r broses Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru. Dylai ysgolion annibynnol ddefnyddio'r tablau a gyhoeddir ar wefan Hwb er mwyn cyfrifo sgoriau dysgwyr at ddibenion diagnostig.

Bydd canllawiau llawn ar weinyddu a marcio yn cael eu hanfon gyda'r profion wedi'u haddasu.

Cynllunio ar gyfer gweinyddu profion

Mae'n ofynnol i ddysgwyr sefyll y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu). Mae'n rhaid sefyll y profion yn ystod y cyfnodau canlynol.

- Ysgolion cynradd: 28 Ebrill 2020–5 Mai 2020.
- Ysgolion uwchradd: 21 Ebrill 2020–5 Mai 2020.

Rhoddir cyfnod o bythefnos i ysgolion uwchradd drefnu amserlen y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn hyblyg yn ystod cyfnod prysuraf yr amserlen arholi.

Gall ysgolion canol a lleoliadau eraill sydd â dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 weinyddu Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) Blynnyddoedd 7 i 9 o 21 Ebrill 2020.

O fewn cyfyngiadau'r cyfnod profi, gall ysgolion ddewis y dyddiadau a'r amseroedd i weinyddu'r profion. Wrth gynllunio amserlenni'r profion dylai ysgolion ystyried y ffordd orau o drefnu sesiynau profion er mwyn bodloni anghenion eu hysgol a lleihau unrhyw straen bosibl ar ddysgwyr i'r lleiaf. Dylid hefyd ystyried materion ymarferol fel caniatáu digon o amser i ddysgwyr ddod yn gyfarwydd â'r deunyddiau ysgogi ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) cyn y profion. Unwaith y bydd amserlen y profion wedi'i llunio, mae'n **rhaid** i'r dyddiadau a drefnwyd ar gyfer y profion gael eu rhannu â'r consortiwm rhanbarthol, a dylid hysbysu rhieni/gofalwyr a'r dysgwyr.

Mae'n rhaid i'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) gael ei weinyddu mewn amgylchedd sy'n caniatáu i bob dysgwr allu gweld a chlywed y deunyddiau ysgogi a gyflwynir cyn pob prawf. Mae hynny'n debygol o olygu na fydd modd defnyddio ystafelloedd arholi neu neuaddau ysgol.

Er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth am gynnwys y prawf, o dan amgylchiadau arferol, dylai ysgolion weinyddu'r profion fel bod pob dysgwr yn sefyll prawf unigol (e.e. y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer Blwyddyn 2) ar yr un diwrnod. Pe bai ysgolion, yn arbennig ysgolion mwy, yn cael anhawster wrth drefnu profion ar yr un diwrnod, dylent gysylltu â chynrychiolydd eu consortia i dynnu sylw at y broblem a chytuno ar ateb.

Bydd gan y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ganllawiau gweinyddu profion sy'n hawdd eu dilyn. Mae crynodeb ohonynt yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon.

Profion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg

Mae'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath fel bod y dysgwyr yn gallu sefyll y prawf yn yr iaith sydd fwyaf priodol iddynt.

Profion mewn lleoliadau eraill (e.e. unedau cyfeirio disgyblion)

Mae'n rhaid i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol brif ffrwd sefyll y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), ac mae'n rhaid i'w canlyniadau gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn ysgol brif ffrwd a hefyd mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig (oni bai bod penderfyniad i ddatgymhwyso wedi'i wneud). Pennaeth yr ysgol brif ffrwd lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y profion yn cael eu gweinyddu i'r dysgwr. Gallai'r pennaeth drefnu i'r profion gael eu sefyll yn y naill leoliad neu'r llall, yn dibynnu ar y trefniadau lleol. Fodd bynnag, os caiff y profion eu sefyll yn yr uned cyfeirio disgyblion, mae pennaeth yr ysgol brif ffrwd yn parhau i fod yn gyfrifol yn gyfreithiol ar bob adeg am weinyddu'r profion hynny'n briodol.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn uned cyfeirio disgyblion yn unig sefyll y profion. Fodd bynnag, mae'n bosibl i'r uned cyfeirio disgyblion archebu profion (o archebuprofion.profioncenedlaethol.cymru) a chyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru, neu gyfrifo sgoriau gan ddefnyddio'r adnoddau ar [Hwb](#) fel y gellid eu defnyddio'n ffurfiannol i gefnogi dysgu ac addysgu a darparu adroddiadau i rieni/gofalwyr.

Hyd y profion

Mae ffigur 1 yn rhoi gwybodaeth am hyd y prawf ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) a phob grŵp blwyddyn. Ceir rhagor o fanylion am reoli amser yn y profion ac am seibiannau yn y canllawiau ar weinyddu profion sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad 1.

Ffigur 1: Hyd y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) sydd ar bapur – Blynyddoedd 2 i 9

Prawf	Amser paratoi	Hyd y prawf	Nodiadau
Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) Blynyddoedd 2 i 3	10–15 munud ar gyfer pob rhan o'r prawf	30 munud	Mae'n rhaid cael seibiant rhwng adrannau
Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) Blwyddyn 4	15 munud	30 munud	Gellir rhoi seibiant rhwng adrannau
Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) Blynyddoedd 5 i 9	15 munud	30 munud	Mae'n rhaid sefyll y prawf mewn un eisteddiad

Trefniadau mynediad a chanllawiau ar ddatgymhwyso

Mae'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i'r mwyafrif o ddysgwyr. Ond, mae'n bosibl y bydd angen rhyw fath o drefniant mynediad ar gyfran o'r dysgwyr er mwyn iddynt allu dangos eu cyrhaeddiad gorau yn y profion. Mae'n bosibl na fydd nifer fach o ddysgwyr, o dan amgylchiadau eithriadol, yn gallu eu sefyll er gwaethaf y trefniadau mynediad sydd ar gael.

Mater i'r pennaeth yw penderfynu a ddylai dysgwr sefyll y profion ai peidio. Wrth wneud penderfyniad, rhaid i'r pennaeth:

- ystyried y canllawiau statudol hyn
- bod wedi ystyried a fyddai unrhyw rai o'r trefniadau mynediad yn helpu'r dysgwr i sefyll y profion (gweler Atodiad 5 am y manylion llawn)
- bod wedi ceisio cymeradwyaeth ei gonsortwm rhanbarthol neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol gan ddarparu tystiolaeth i gefnogi ei benderfyniad.

Ceir manylion llawn y trefniadau mynediad a datgymhwyso yn Atodiadau 5 a 7. Mae unrhyw ystyriaethau sy'n benodol i brofion ar gyfer trefniadau mynediad wedi'u cynnwys yn y llyfrynnau canllawiau ar weinyddu'r profion ac yn Atodiad 1.

Dosbarthu deunyddiau'r profion i ysgolion

Caiff deunyddiau'r profion eu dosbarthu mewn dau gam ar wahân (uwchradd a chynradd) cyn y profion. Os byddwch yn archebu profion wedi'u haddasu, cânt eu dosbarthu ar wahân. Bydd y pecyn yn cynnwys deunyddiau cysylltiedig a chanllawiau, gan gynnwys cynlluniau marcio wedi'u haddasu.

Ysgol	Grŵp blwyddyn	Dyddiad
Uwchradd	Blynyddoedd 7, 8 a 9	Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 30 Mawrth 2020
Cynradd	Blynyddoedd 2 i 6	Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 20 Ebrill 2020
Canol (a lleoliadau eraill sy'n archebu profion ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd)	Blynyddoedd 7, 8 a 9	Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 30 Mawrth 2020
Canol (a lleoliadau eraill sy'n archebu profion ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd)	Blynyddoedd 2 i 6	Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 30 Mawrth 2020

Os nad yw ysgolion uwchradd wedi derbyn deunyddiau Blynyddoedd 7, 8 a 9 erbyn 3 Ebrill 2020, ac os nad yw ysgolion cynradd wedi derbyn deunyddiau Blynyddoedd 2 i 6 erbyn 24 Ebrill 2020, dylent gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 029 2026 5327.

Bydd pob ysgol yn cael pecynnau o ddeunyddiau a fydd yn cynnwys popeth sydd ei angen i weinyddu'r prawf. Bydd y pecynnau prawf yn cael eu rhoi at ei gilydd gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gan ysgolion i'r System Archebu Profion Cenedlaethol yn ystod Hydref a Thachwedd 2019.

Bydd y pecynnau'n cynnwys llyfrynau Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer eich dysgwyr, canllawiau gweinyddu'r profion a chynlluniau marcio, yn unol â'r archeb. Bydd pob cynllun marcio a ddsberthir yn cynnwys copi ychwanegol o'r llyfryn prawf cyfatebol.

- Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – Cymraeg.
- Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – Saesneg.

Derbyn a storio deunyddiau'r profion

Pan fydd deunyddiau'r profion, gan gynnwys unrhyw ddeunydd sydd wedi'i addasu, yn cyrraedd, rhaid i'r pennaeth neu ei gynrychiolydd (megis swyddog arholiadau neu weinyddwr dirprwyedig) wirio'r hyn sydd wedi'i ddanfon yn erbyn y nodyn i sicrhau bod y nifer gywir o becynnau wedi cyrraedd. Os yw'r hyn a ddanfonwyd yn anghyflawn, dylai aelod o staff gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 029 2026 5327 i drefnu bod y nifer gywir o becynnau prawf yn cael eu hanfon i'r ysgol.

Mae'n rhaid i lyfrynnau'r profion a'r cynlluniau marcio gael eu cadw'n gyfrinachol hyd nes y caiff y profion eu sefyll. Caiff yr eitemau hyn eu pacio mewn polythen lliw anrhyloyw. Os cânt eu hagog i wirio'r nifer, mae'n rhaid eu hailselio ar unwaith a'u storio mewn lle diogel hyd nes y bydd eu hangen ar gyfer gweinyddu neu farcio'r profion. Ni ddylai unrhyw ddysgwyr weld na chael gafael ar gynnwys llyfrynnau'r profion cyn sefyll y prawf. Ac eithrio i addasu'r deunyddiau (gweler Atodiad 5), **ni chaniateir** gwneud llungopiau o unrhyw dudalennau o'r llyfrynnau profion.

Bydd pecynnau'r profion hefyd yn cynnwys canllawiau ynghylch gweinyddu'r profion ynghyd â'r disgiau a sgriptiau'r athrawon. Nid yw'r eitemau hyn yn gyfrinachol a chânt eu pecynnu mewn plastig clir gyda'r label '**PWYSIG** Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am baratoi ar gyfer y profion. Dylid ei agor a'i roi ar unwaith i'r person sy'n gyfrifol am weinyddu'r profion.' Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu defnyddio cyn y profion, a gellir eu hagog ar unwaith. Bydd y pecynnau'n cynnwys canllawiau ynghylch gweinyddu profion ar gyfer pob grŵp blwyddyn a dylid eu cadw mewn lleoliad canolog.

Ar ôl i'r profion gael eu gweinyddu dylai papurau y profion a'r deunyddiau atodol gael eu cadw o dan amodau diogel am o leiaf flwyddyn rhag ofn y bydd unrhyw ymholiadau ar ôl gweinyddu. Ar ôl blwyddyn mae'n rhaid i'r ysgol drefnu bod papurau'r profion yn cael eu gwaredu mewn modd diogel.

Ymglyfarwyddo â'r prawf

Dylid darllen a/neu adolygu'r canllawiau gweinyddu penodol ar gyfer y prawf cyn gweinyddu'r prawf.

Rhan hanfodol o'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) fydd y deunyddiau ysgogi a byddant yn gymorth ac yn sail i'r ymateb i gwestiynau'r prawf. Bydd angen i'r sawl a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r sesiynau ysgogi ymglyfarwyddo â'r rhain ymlaen llaw a hefyd sicrhau bod y disg sy'n cynnwys y cyflwyniad yn gweithio'n iawn. Darperir sgrïpt i gyd-fynd â'r deunydd gweledol, sy'n cynnwys cyflwyniad PowerPoint. Mae'n bur debyg y bydd y deunydd ysgogi yn cymryd rhwng 5 a 10 munud yn dibynnu ar sut y bydd y cyflwynydd yn gweinyddu hyn ac i ba raddau y bydd y dysgwyr yn rhyngweithio.

Mae gwybodaeth yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon yn crynhoi'r gofynion ar gyfer gweinyddu'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar draws pob grŵp blwyddyn.

Bydd angen i weinyddwyr y profion fod yn ymwybodol hefyd o'r trefniadau mynediad y cytunwyd arnynt ar gyfer unrhyw ddysgwyr y byddant yn gyfrifol amdanynt. Amlinellir y trefniadau mynediad a ganiateir yn Atodiad 5.

Sefyll y profion

Amodau ar gyfer gweinyddu profion

Mae'n rhaid i'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) gael eu gweinyddu o dan amodau prawf priodol ac mae cyfrifoldeb ar bob ysgol i'w gweinyddu'n unol â safonau cenedlaethol cytunedig. Mae'r amodau a'r safonau hyn fel a ganlyn. Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau:

- bod y gwaith a gynhyrchir yn y profion yn waith gwirioneddol y dysgwyr
- bod goruchwyliaeth briodol bob amser sy'n gymesur â nifer y dysgwyr sy'n cael eu goruchwyllo
- bod gan y dysgwyr ddeunyddiau'r profion ynghyd â'r holl adnoddau angenrheidiol
- bod y profion yn cael eu cyflwyno a'u gweinyddu'n unol â'r canllawiau a nodir yn y llawlyfr hwn a'r wybodaeth yn y canllawiau sy'n benodol i'r profion a ddarperir (gweler hefyd y crynodeb a nodir yn Atodiad 1)
- bod dysgwyr yn cael yr amser priodol i gwblhau'r prawf. Bydd angen cyfeirio at yr amseroedd a nodir yn y canllawiau sy'n benodol i'r profion a nodir yn Atodiad 1
- nad yw'r dysgwyr yn gweld unrhyw ddeunyddiau a allai, o safbwynt cynnwys y profion, roi mantais annheg iddynt, e.e. siartiau ar y wal neu adnoddau tebyg yn yr ystafell ddosbarth (**noder:** nid yw'n ofynnol i ysgolion guddio pob arddangosfa, dim ond y rheini a allai helpu'r dysgwyr yn y profion)
- na chaiff unrhyw gefnogaeth, gwybodaeth na chymorth ychwanegol ei roi i ddysgwyr o safbwynt cynnwys y profion, ac eithrio'r hyn a ganiateir o dan y trefniadau mynediad a datgymhwyso (gweler Atodiad 5)
- nad yw dysgwyr yn dychwelyd at a/neu'n diwygio eu hatebion i'r profion ar ôl i'r amser a ganiateir ddod i ben.

O ran dysgwyr:

- dylent allu gweithio o dan amodau cyfforddus, heb unrhyw beth yn tarfu arnynt ac yn unigol
- ni ddylent fynd ag unrhyw gyfryngau recordio i'r profion, gan gynnwys ffonau symudol
- dylent fod yn ymwybodol mai diben y profion yw darganfod yr hyn y gallant ei wneud a'r hyn na allant ei wneud, fel y gall athrawon eu helpu i ddatblygu eu sgiliau; ac felly mae'n rhaid mai eu gwaith eu hunain yw'r hyn a gynhyrchir ganddynt yn y profion, ac nad oes ganddynt hawl i drafod unrhyw gwestiynau na chopio atebion.

Y cyfle i gyflwyno'r profion mewn rhannau: Blynyddoedd 2 i 4

Mae'n rhaid rhoi seibiant i'r dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 a 3 er mwyn iddynt allu perfformio hyd eithaf eu gallu. Mater i'r ysgol yw hyd y seibiant a ganiateir, a gall dysgwyr adael yr ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall ysgolion gynnal prawf fesul tipyn fel y bydd yn cymryd diwrnod ysgol cyfan i'w gwblhau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Fel rheol, dylai dysgwyr Blwyddyn 4 sefyll y prawf mewn un eisteddiad, ond o dan amgylchiadau eithriadol gallant sefyll y prawf mewn darnau os yw'r ysgol o'r farn bod

angen gwneud hynny er mwyn rhoi cyfle iddynt wneud eu gwaith gorau. Mae'r un amodau ag uchod yn berthnasol. Fel arfer, mae'n rhaid i ddysgwyr Blynyddoedd 5 i 9 sefyll y profion mewn un eisteddiad parhaus.

Rhoddir manylion ynghylch sut i drefnu'r seibiannau hyn yn y canllawiau ar weinyddu profion penodol (Atodiad 1).

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau nad yw cyfanswm yr amser a roddir i ddysgwyr ei dreulio yn gweithio ar y prawf yn fwy na'r amser penodedig, a bod y prawf yn cael ei gynnal mewn un diwrnod. Rhwng yr eisteddiadau, dylai llyfrynnau ateb/profion sydd wedi'u cwblhau'n rhannol gael eu cadw mewn man lle na all dysgwyr gael gafael arnynt.

Absenoldeb yn ystod cyfnod y profion

Os yw'n hysbys y bydd dysgwr yn absennol ar y diwrnod y cynhelir y prawf, yna mae'n rhaid caniatáu i'r dysgwr hwnnw sefyll y prawf rywbryd arall o fewn cyfnod penodedig y prawf. Yn yr achosion hynny, dylai'r prawf gael ei sefyll mor agos at ddyddiad penodedig y prawf ag sy'n bosibl, a dylai'r dysgwr ddeall na ddylai drafod cynnwys y prawf na'r atebion gyda'i gyfoedion.

Os yw dysgwr yn absennol am ran o'r prawf ac na all gwblhau gweddill y prawf yn ddiweddarach yn ystod cyfnod y prawf, dylai'r ysgol farcio sgrïpt y prawf o hyd. Bydd yr ysgol yn gallu defnyddio canlyniadau'r dysgwr i lywio gweithgarwch dysgu ac addysgu.

Ni fydd dysgwyr sy'n cyrraedd y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn hwyr ac nad ydynt yn bresennol pan gaiff y deunyddiau ysgogi eu cyflwyno yn gallu ymuno yn y prawf y pryd hwnnw. Mae'n rhaid gwneud trefniadau iddynt sefyll y prawf yn ddiweddarach yn ystod cyfnod penodedig y prawf. Mae'n bosibl y gall dysgwyr ym Mlwyddyn 2 a 3 sy'n cyrraedd yn hwyr sefyll ail ran y prawf, cyhyd â'u bod yn bresennol pan gaiff yr ail set o ddeunyddiau ysgogi ei chyflwyno.

Mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n colli cyfnod cyfan y prawf gael eu cofnodi'n absennol pan fydd canlyniadau'r prawf yn cael eu nodi/lanlwytho drwy'r system berthnasol, h.y. system gwybodaeth reoli yr ysgol. Gall y dysgwyr hynny sefyll y prawf ar ôl dychwelyd a gall yr ysgol ddefnyddio'r wybodaeth ffurfiannol. Fodd bynnag, ni all yr ysgol lanlwytho'u sgoriau at ddibenion safoni.

Y rhai sy'n gweinyddu'r profion

Mae'n debygol y bydd gan lawer o ysgolion brotocolau sefydledig ar waith ar gyfer profi dysgwyr yn flynyddol, a dylent ystyried a yw'r trefniadau hynny'n briodol i'w defnyddio ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), wedi'u haddasu neu heb eu haddasu. Wrth wneud neu addasu trefniadau o'r fath, dylai ysgolion gadw mewn cof ddarpariaethau *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2018* ('DCAAY 2018') yr Adran Addysg a *Chanllawiau i Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol Medi 2018* ('DCAAY 2018' ar hyn o bryd, a fydd yn cael ei disodli gan 'DCAAY Cymru 2019' cyn hir), neu yn achos staff cymorth, ddogfen *Cytundeb Cenedlaethol y Cyd-gyngor Cenedlaethol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol ar Gyflog ac Amodau Gwasanaeth* (Cyd-gyngor Cenedlaethol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol, 2018) neu delerau ac amodau perthnasol nad ydynt yn rhan o'r Cyd-gyngor Cenedlaethol.

Mae gan ysgolion ddisgresiwn o ran penderfynu pa aelodau o'r staff sy'n gweinyddu'r profion ond mae'n rhaid iddynt ystyried darpariaethau DCAAY 2018 wrth wneud unrhyw benderfyniadau yn hynny o beth. Pan fydd y profion yn cael eu gweinyddu mewn dosbarthiadau, yng nghyd-destun yr amserlen addysgu arferol yn fras, gall fod yn rhesymol gofyn i athrawon eu gweinyddu.

Ar y llaw arall, os yw'r profion yn cael eu cynnal o dan amodau tebyg i arholiadau allanol, y tu allan i'r amser addysgu arferol ac o dan amodau arholiadau gwahanol, ar sail grŵp blwyddyn mewn neuadd arholiadau er enghraifft, dylai ysgolion fod yn ymwybodol bod y profion hynny'n debygol o ddod o dan baragraff 52.8 o Adran 2 (DCAAY 2018 ar hyn o bryd, ond bydd y ddogfen yn cael ei dirymu a'i disodli gan ddarpariaethau yn DCAAY Cymru 2019).

'Ni ddylai fod yn ofynnol i athro gymryd rhan yn rheolaidd mewn tasgau gweinyddol, clercol a threfniadol nad ydynt yn galw am arfer sgiliau a barn broffesiynol athro, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol, megis goruchwyllo.'

Yn y cyd-destun hwnnw mae'n ddisgwyliad rhesymol, yn unol â chytundeb pennaeth y ganolfan (y pennaeth fel arfer), y dylai athro fod yn bresennol ar ddechrau prawf yn ei faes, er mwyn bwrw golwg dros y papur a sicrhau nad oes unrhyw broblemau. Dylai'r rhai sy'n gweinyddu'r prawf fod yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion brys a chysylltu ag athro yn y maes pwnc dan sylw pe bai unrhyw ddysgwyr yn codi pryder neu broblem gyda'r papur sy'n gofyn am farn broffesiynol. Efallai y bydd yn briodol hefyd i athro fod yn bresennol ar ddiwedd prawf, er mwyn sicrhau ei fod yn dod i ben mewn modd effeithlon. Wrth ymgymryd â thasgau o'r fath, ni ddylid disgwyl i athrawon aros yn y neuadd/ystafell am fwy o amser nag sydd ei angen i'w cyflawni.

Gall ysgolion gyflogi goruchwylwyr allanol ar gyfer y profion papur os ydynt yn dymuno.

Os defnyddir staff cymorth i weinyddu a/neu farcio'r profion, mae'n rhaid i'r ysgolion sicrhau bod y tasgau hynny'n briodol i'w lefel a'u disgrifiad swydd.

Gyda'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), ac yn benodol o ran y grwpiau blwyddyn iau, mae'n bwysig bod y deunyddiau ysgogi a gyflwynir cyn y profion yn cael eu cyflwyno gan rywun y mae'r dysgwyr yn gyfforddus ag ef/hi, ac sydd â'r gallu hefyd i ennyn diddordeb dysgwyr a sicrhau eu bod yn deall cyd-destun y deunyddiau ysgogi. Dylai ysgolion gymryd camau i sicrhau hynny, ac felly mae'n bosibl y byddant yn teimlo ei bod yn briodol i'r profion hyn gael eu gweinyddu gan athrawon neu gynorthwylwyr addysgu y mae dysgwyr yn eu hadnabod.

Ar ôl i'r profion gael eu sefyll

Marcio'r profion

Caiff cynlluniau marcio eu darparu gyda phecynnau'r profion. Mae marciau'n cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar y papurau prawf. Dylai ysgolion gadw'r papurau ar ôl eu marcio a gallent gyfeirio atynt at ddibenion ffurfiannol os ydynt yn dymuno.

Mae gan ysgolion ddisgresiwn o ran dewis pa aelodau o'u staff sy'n marcio'r profion. Mae cynlluniau marcio wedi'u llunio i gael eu defnyddio'n gyflym ac yn hawdd a, lle bynnag y bo'n bosibl, i leihau'r angen am farn broffesiynol, ond bydd angen arddel barn broffesiynol o hyd mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'r cynlluniau marcio ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) hefyd yn rhoi canllaw ar ddehongli ac adeiladu ar berfformiad dysgwyr a dosbarthiadau. Dylai ysgolion ystyried hynny, ynghyd â darpariaethau paragraff 52.8 o Adran 2 DCAAY 2018 (DCAAY 2018 ar hyn o bryd, a bydd yn cael y ddogfen yn cael ei dirymu a'i disodli gan ddarpariaethau yn DCAAY Cymru 2019), wrth benderfynu pwy ddylai farcio'r profion.

Yr ysgolion sy'n penderfynu a ydynt yn rhoi amser penodedig i'r marcwyr farcio'r profion.

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol y gallai'r cwestiynau ar y papurau sydd wedi'u haddasu fod yn wahanol i'r papurau safonol. Mae'r *Nodiadau i athrawon*, a ddarperir ar y cyd â'r profion sydd wedi'u haddasu, yn cynnwys cynlluniau marcio wedi'u haddasu ar gyfer pob prawf. Bydd angen i'r marcwyr gyfeirio at y cynlluniau marcio wedi'u haddasu a'r cynlluniau marcio safonol wrth farcio'r papurau prawf sydd wedi'u haddasu (cyfeiriwch at dudalen 48 'Sut y byddaf yn marcio'r profion wedi'u haddasu?' i gael rhagor o ganllawiau). Dylai'r marcwyr gofio mai eu cyfrifoldeb nhw yw cadw'r papurau'n ddiogel yn ystod cyfnod y profion, a throsglwyddo pob papur yn ddiogel i'w storio gan yr ysgol.

Mae'n **rhaid** marcio pob papur prawf erbyn **2 Mehefin 2020** ar gyfer proses Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi cyfle i lanlwytho'r sgoriau mewn pryd. Mae'n bosibl y bydd gan awdurdodau lleol drefniadau ar gyfer dyddiad cwblhau cynharach.

Adnoddau diagnostig

Bydd pecynnau cymorth diagnostig ar gael i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi fesul cwestiwn, a gall y rhain fod yn ddefnyddiol hefyd wrth farcio. Cyhoeddir y pecynnau diagnostig ar wefan Hwb ar ddiwedd cyfnod y profion yn hwb.gov.wales/cwricwlm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/profion-darllen-a-rhifedd-cenedlaethol-adnoddau-cymorth-diagnostig/.

Cefnogi marcio

Pan gafodd y Profion Cenedlaethol eu cyflwyno, roedd ysgolion uwchradd wedi gofyn am gefnogaeth ychwanegol wrth farcio Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) Blynnyddoedd 7, 8 a 9. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnig Gwasanaeth Cefnogi Marcio ers haf 2014. Yn 2020 bydd y Gwasanaeth Cefnogi Marcio ar gael i

ysgolion ar gyfer Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) Blynyddoedd 7 i 9. Yn ychwanegol, caiff rhaglen hyfforddi ei darparu ar gyfer y consortia addysg rhanbarthol sy'n ymwneud â chynlluniau marcio Blynyddoedd 2 i 6 y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), er mwyn sicrhau bod y consortia'n gallu cefnogi'r ysgolion cynradd yn eu rhanbarthau.

Arfer gwael

Diben y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yw eu bod yn brofion at ddefnydd ffurfiannol, er mwyn sicrhau bod gan athrawon wybodaeth am sgiliau rhifedd (rhesymu) eu dysgwyr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn barnu ysgolion ar sail canlyniadau'r profion.

Os oes achos yn codi lle nad gwaith y dysgwr ei hun yw sgrïpt y dysgwr am unrhyw reswm, mae'n **rhaidd** i'r pennaeth gael gwybod a dylid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion y gellid bod wedi effeithio arnynt er gwybodaeth i'r marciwr, yr awdurdod lleol ac unrhyw ymchwiliad canlyniadaol. Yna, mae'n **rhaidd** i'r pennaeth neu ddirprwy priodol gysylltu â'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol perthnasol i roi gwybod iddynt ac i gael arweiniad ar y camau y dylid eu cymryd. Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar ganlyniadau mewn achosion lle y cânt eu hamau neu lle yr ymddengys eu bod yn anghywir.

Mewnbynnu data a threfniadau adrodd

I gael gwybodaeth am gyflwyno data, cyfeiriwch at *Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru 2019/20 a threfniadau adrodd*. Bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn nhymor y gwanwyn, cyn i'r profion ddechrau. Caiff awdurdodau lleol eu hysbysu pan fydd y ddogfen hon ar gael.

Ar ôl cael y sgoriau crai'r profion, ac ar ôl eu safoni, caiff taflenni canlyniadau disgyblion eu cynhyrchu a'u darparu i ysgolion. Mae'n rhaid rhannu'r canlyniadau a nodwyd â rhieni/gofalwyr fel rhan o'r broses adrodd arferol. Os na all ysgolion ddarparu adroddiadau i rieni/gofalwyr erbyn diwedd tymor yr haf 2020, mae'n rhaid eu darparu erbyn 30 Medi 2020 fan bellaf.

Taflenni canlyniadau disgyblion

Mae taflenni canlyniadau disgyblion yn cynnwys sgôr safonedig ar sail oedran a mesur cynnydd ar gyfer y prawf sy'n cael ei sefyll gan ddysgwyr. Nid yw sgoriau safonedig ar sail oedran sy'n uchel neu'n isel iawn bob amser yn ddibynadwy; mae llawer mwy o amrywio ystadegol ar ddau begwn ystod y sgôr nag yn y canol, felly nid yw galluedd dysgwyr yn cael eu hamcangyfrif mewn ffordd ddibynadwy iawn yma. Y rheswm am hynny yw bod data ar ddau begwn ystod y sgôr yn llawer mwy prin.

Mewn ambell achos, oherwydd ystod her cwestiynau'r prawf, mae'n bosibl na fydd modd cofrestru sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer dysgwr os yw ei sgiliau rhifedd (rhesymu) yn datblygu'n arafach na'r disgwyl. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid cofnodi sgôr safonedig ar sail oedran 'llai na 70'. Yn yr un modd, mae'n rhaid cofnodi sgôr safonedig ar sail oedran 'dros 140' ar gyfer y rhai sy'n llwyddo'n dda.

Mae'r mesur cynnydd yn dangos a yw'r gwelliant a wneir gan ddysgwr o ran rhifedd (rhesymu) o un flwyddyn i'r llall yn unol â'r hyn a gyflawnir gan ddysgwyr eraill yn yr un

grŵp Blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol sy'n sefyll yr un prawf. Nid oes neb yn perfformio ar lefel gyson bob amser. Mae mân newidiadau yn fwyaf tebygol o godi oherwydd y ffordd y perfformiodd dysgwyr ar y prawf penodol hwnnw ar ddiwrnod penodol y prawf. Gall patrymau'r newid dros amser roi arwydd gwell o gynnydd y dysgwyr.

Mae dogfen *Profion darllen a rhifedd yng Nghymru – 2019: Gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant ym Mlynnyddoedd 2 i 9* Llywodraeth Cymru (hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/gwybodaeth-i-rienigofalwyr-blwyddyn-2-9-profion-darllen-a-rhifedd-yng-nghymru/) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sgorio'r profion. Mae'r canllaw yn nodi bod pob Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn ceisio mesur cyflawniad ar draws yr ystod ddisgwyliedig ar gyfer pob grŵp oedran ac na fyddant yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy bob amser ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar ddau begwn ystod eu hoedran. Yn yr achosion hynny, bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i drafod cynnydd eu plentyn gyda'r ysgol. Mae pob ysgol yn defnyddio dulliau amrywiol o asesu sut mae sgiliau'r dysgwyr hyn yn datblygu, ac yn hysbysu rhieni/gofalwyr am gynnydd dysgwyr.

Datganiad y pennaeth

O fewn saith diwrnod ysgol i'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno data, mae'n **rhaid** i'r pennaeth **lofnodi a chyflwyno** datganiad i'r **consortium rhanbarthol** (sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod lleol) yn cadarnhau bod y pecynnau prawf wedi cyrraedd ac wedi'u storio'n ddiogel, bod y profion wedi'u gweinyddu'n gywir yn unol â'r gofynion a amlinellwyd yn llawlyfr gweinyddu PC (y llawlyfr hwn), a bod y profion wedi eu marcio'n unol â'r cynllun marcio. Gellir lawrlwytho ffurflen ddatganiad yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/datganiad-y-pennaeth/.

Monitro trefniadau asesu

Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i fonitro'r trefniadau asesu mewn o leiaf 10 y cant o'u hysgolion. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau asesu yn unol ag amserlen gweinyddu'r profion, y canllawiau gweinyddu profion a'r canllawiau sydd yn y llawlyfr hwn. Bob blwyddyn bydd yr awdurdod lleol neu'r consortium rhanbarthol yn cynnal rhaglen o ymweliadau monitro â sampl o ysgolion. Gall yr ymweliadau gael eu cynnal yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau canlynol.

- Yr wythnos cyn y caiff y profion eu gweinyddu i'r dysgwyr.
- Y cyfnod y caiff y profion eu gweinyddu i'r dysgwyr.
- Hyd at 20 diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod olaf y cafodd unrhyw un o'r profion ei weinyddu i'r dysgwyr.

Os bydd yr ymweliadau'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod gweinyddu'r profion neu ar ôl cwblhau'r profion, mae'n rhaid i gynrychiolwyr yr awdurdod lleol sicrhau hefyd mai gwaith y dysgwyr eu hunain yw ymatebion ysgrifenedig dysgwyr, a bod y profion wedi'u marcio yn unol â'r cynllun marcio perthnasol.

Ar ôl unrhyw ymweliad monitro, caiff canlyniad yr ymweliad ei drafod â'r pennaeth. Os yw'r awdurdod lleol neu'r consortium rhanbarthol yn pryderu nad yw'r trefniadau asesu

yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig neu nad gwaith y dysgwyr eu hunain yw ymatebion dysgwyr, byddant yn dwyn y mater i sylw'r pennaeth ac yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru.

Mae dyletswydd ar benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion i roi hawl i'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol gael mynediad i safle'r ysgol, i archwilio unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â threfniadau asesu'r profion neu eu copïo, ac i roi gwybodaeth berthnasol yn unol ag unrhyw gais gan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol.

Cymorth

Os oes gan ysgolion unrhyw ymholiadau am y papurau prawf, gallant gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion ar 029 2026 5327 neu anfon e-bost at apl@profioncenedlaethol.cymru.

Rhan 2: Aseidiadau personol

Cyflwyno'r aseidiadau personol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno aseidiadau personol ar-lein fesul cam dros gyfnod o dair blynedd (dechreuwyd gwneud hynny ym mlwyddyn academaidd 2018/19).

Ym mlwyddyn academaidd 2019/20, bydd yn ofynnol i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys rhai cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyr, gwirfoddol a reolir, a sefydledig) sefyll Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) **ar-lein**, Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol **ar-lein**, a'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) **papur**.

Dros amser bydd yr aseidiadau personol yn disodli'r Profion Cenedlaethol presennol sydd ar bapur, yn unol â'r amserlen a roddir isod.

Blwyddyn academaidd	Rhifedd (Gweithdrefnol)	Darllen (Cymraeg a Saesneg)	Rhifedd (Rhesymu)
2019/20	Ar-lein	Ar-lein	Papur
2020/21	Ar-lein	Ar-lein	Ar-lein

Drwy symud i aseidiadau ar-lein, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig profiad asesu personol sy'n addasu lefel yr her ar gyfer pob dysgwr. Mewn aseidiadau personol mae'r cwestiynau a gaiff eu gofyn wedi'u seilio ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol, neu'r grŵp o gwestiynau blaenorol yn yr Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol. Yn yr Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol), mae'r system asesu'n addasu yn ôl lefel y cwestiwn unigol, felly os bydd dysgwr yn rhoi ateb cywir, caiff cwestiwn mwy heriol ei ofyn, ac os bydd dysgwr yn rhoi ateb anghywir i gwestiwn, caiff cwestiwn haws ei ofyn. Yn yr Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol, mae'r system asesu'n addasu yn ôl lefel y testun, felly bydd dysgwr yn ymateb i grŵp o gwestiynau sy'n gysylltiedig â thestun cyffredin, ac ar sail ei ymatebion i'r grŵp hwnnw o gwestiynau, bydd y system yn dewis testun a chwestiynau newydd. Bydd y broses honno'n parhau nes bod y system asesu wedi cwmpasu'r agweddau perthnasol ar y cwricwlwm ac wedi casglu digon o wybodaeth am ymatebion dysgwr.

Mae aseidiadau personol yn cynnig gwybodaeth am sgiliau dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys dosbarthiadau cyfan. Caiff eu marcio'n awtomatig ac mae'r adborth ar gael i aelodau o'r staff ddiwrnod ar ôl cynnal yr asesiad.

Amseru aseidiadau personol

Mae gan ysgolion hyblygrwydd i drefnu'r aseidiadau personol mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen **ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd sydd fwyaf buddiol, yn eu barn hwy, o ran llywio gweithgarwch dysgu ac addysgu.** **Nid oes** angen i ysgolion gynnal yr aseidiadau yn ystod cyfnod sefyll y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) papur.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr sefyll yr Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol unwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Gall ysgolion hefyd ddefnyddio'r aseidiadau unwaith yn rhagor yn ystod y flwyddyn academaidd. Os bydd ysgolion yn penderfynu defnyddio'r aseidiadau eilwaith yn ystod y flwyddyn academaidd, argymhellir na ddylai dysgwyr wneud mwy nag un o bob math o asesiad y tymor.

Mynediad at aseidiadau personol

Bydd staff a dysgwyr yn cael mynediad at yr aseidiadau personol drwy Hwb, llwyfan dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi ar gyfer Hwb.

Cyn y gall dysgwyr sefyll aseidiadau personol:

- bydd angen i'r pennaeth, neu aelod o staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, neilltuo swyddogaethau a mynediad ar gyfer aelodau perthnasol o staff
- bydd angen i staff fewngofnodi i Hwb a mynd i wefan yr aseidiadau personol drwy glicio ar aseidiadau personol yn y ddewislen ar ochr dde uchaf y dudalen neu ar dudalen hafan Hwb er mwyn trefnu aseidiadau i ddysgwyr
- bydd angen iddynt fewngofnodi i Hwb a gweithio drwy aseidiadau ymgyswrtwyddo mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen er mwyn iddynt ddeall fformatau cwestiynau a sut i we-lywio a gweithio'u ffordd drwy'r aseidiadau.

I gael gwybod sut y gall defnyddwyr Hwb gael gafael ar enw defnyddiwr a chyfrinair, dilynwch y ddolen hon hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/dechrau-arni/.

Dylai ysgolion nodi bod gwefan yr aseidiadau yn dibynnu ar ddata gan system gwybodaeth reoli ysgolion. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod eu system gwybodaeth reoli yn gyfredol a bod Cleient Darparu Hwb³ yn cael ei redeg yn rheolaidd.

Rheoli defnyddwyr

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod mynediad at ddata am ddysgwyr unigol yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae hyn yn cynnwys data o'r aseidiadau statudol y mae dyletswydd ar benaethiaid drefnu eu gweinyddu i'w dysgwyr.

Er mwyn i aseidiadau personol gael eu gweinyddu mewn unrhyw ysgol, mae'n ofynnol i'r pennaeth, neu aelod o staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, fewngofnodi i wefan yr aseidiadau (drwy Hwb) a neilltuo swyddogaethau a mynediad ar gyfer aelodau perthnasol o staff er mwyn iddynt drefnu a hwyluso aseidiadau a gweld adroddiadau ar ddysgwyr a grwpiau. Mae angen hefyd i'r pennaeth, neu'r aelod o staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, gytuno y bydd yr aseidiadau personol yn cael eu gweinyddu yn unol â'r llawlyfr gweinyddu hwn. Bob blwyddyn, bydd angen i'r pennaeth, neu'r aelod o staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an ail awdurdodi'r cytundeb

³ Gweler yr adran gymorth ar Cleient Darparu Hwb yn hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/rheoli-defnyddwyr.

hwn. Bydd mynediad ar gyfer aelodau eraill o'r staff yn cael ei gyfyngu hyd nes bod y pennaeth, neu'r aelod o'r staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, wedi gwneud hynny.

Mae'r swyddogaethau a neilltuir yn pennu pa weithgareddau y gall staff ymgymryd â hwy ar wefan yr asesiadau. Gellir cyfyngu ar fynediad yn ôl grwpiau blwyddyn neu ddsbarthiadau penodol, er mwyn sicrhau bod staff yn cael mynediad at wybodaeth berthnasol a phriodol. Dylai'r pennaeth, neu'r aelod o'r staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, adolygu'r swyddogaethau a'r mynediad sydd wedi'u neilltuo i staff yn flynyddol.

Mae'r swyddogaethau a ddangosir yn y tabl isod ar gael i benaethiaid eu neilltuo i'w haelodau o staff. Caiff y swyddogaeth 'Gweinyddu' ei neilltuo'n awtomatig i'r pennaeth, sy'n ei (g)alluogi i reoli swyddogaethau defnyddwyr eraill. Gellir hefyd neilltuo'r swyddogaeth 'Gweinyddu' i aelodau eraill o staff y mae'r cyfrifoldeb am drefniadau asesu wedi'u dirprwyo iddynt. Argymhellir bod y swyddogaeth 'Gweinyddu' yn cael ei neilltuo'n gynnil, a dim ond i'r aelodau hynny o staff y mae'n hanfodol iddynt gael y lefel hon o fynediad.

Ffigur 2: Rheoli defnyddwyr – swyddogaethau

Swyddogaeth	Trefnu asesiadau personol	Hwyluso asesiadau personol	Cael adborth ac adroddiadau	Rheoli defnyddwyr
Gweinyddu	✓	✓	✓	✓
Hwyluso a dadansoddi	✓	✓	✓	
Hwyluso	✓	✓		
Dim mynediad				

Trefnu asesiadau

Trefnu

Bydd gan ysgolion hyblygrwydd i drefnu'r Asesiad Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol **ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd**. Gall ysgolion drefnu'r asesiadau ar gyfer dysgwyr unigol, grwpiau bach neu ddsbarthiadau cyfan, yn unol â'u dymuniadau a'u cyfleusterau TG. Gan fod yr asesiadau personol yn wahanol i bob dysgwr, nid oes angen i ddsbarth cyfan o ddysgwyr sefyll yr asesiadau ar yr un pryd.

Mae'n rhaid i asesiadau personol gael eu trefnu ar gyfer diwrnod ysgol penodol ac **o leiaf y diwrnod cyn i'r asesiad gael ei gynnal**. Gellir eu cynnal ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol. Os na fydd dysgwr yn dechrau asesiad ar y diwrnod a drefnwyd, caiff ei ganslo dros nos a gall yr ysgol aildrefnu'r asesiad. **Os bydd dysgwr yn dechrau asesiad ar y diwrnod a drefnwyd ond nad yw'n ei gwblhau, caiff y canlyniadau eu cyflwyno dros nos oni chaiff yr asesiad ei ganslo. Yn y sefyllfa hon, mae'n bwysig bod yr asesiad yn cael ei ganslo a'i aildrefnu.**

Hyd asesiadau

Nid oes hyd penodol ar gyfer yr asesiadau; mae dysgwyr yn gweithio drwyddynt wrth eu pwysau. Mae hyd asesiadau yn amrywio, yn dibynnu ar faint o amser y mae'n ei gymryd i'r system gadarnhau lefel gallu'r dysgwr. Pan fydd y system wedi casglu digon o wybodaeth, daw'r asesiad i ben yn awtomatig.

Mae'r Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn para rhwng 20 a 40 munud fel arfer. Mae'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol yn para rhwng 35 a 45 munud fel arfer. Os ydych yn trefnu ar gyfer grŵp o ddysgwyr neu ddosbarth cyfan, efallai y bydd angen i chi gynllunio gweithgarwch i'r rhai sy'n gorffen eu hasesiad cyn gweddill y grŵp.

Cyn i ddysgwyr sefyll yr asesiadau, bydd angen i chi sicrhau bod digon o amser paratoi, e.e. sicrhau bod pob dyfais yn gweithio a bod gan bob dysgwr ei fanylion i fewngofnodi i wefan Hwb.

Dyfeisiau a seilwaith

Mae canllawiau ar y dyfeisiau a'r porwyr y gellir eu defnyddio ar gyfer yr asesiadau personol ar gael yn Atodiad 2.

Mae canllawiau ar sut i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd eich ysgol â'r rhyngwrwyd ar gael yn hwb.gov.wales/cwricwlm-drafft-i-gymru-2022/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-canllawiau-tg-i-ysgolion/.

Iaith

Gellir sefyll yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn Gymraeg neu yn Saesneg. Caiff iaith asesiad dysgwr ei ddewis pan fydd aelod o staff yn trefnu'r asesiad. Fodd bynnag, gall dysgwr weld copi o'r cwestiwn yn yr iaith arall ar unrhyw adeg yn ystod yr asesiad, drwy glicio ar eicon y 'glôb' ar waelod y sgrin.

Wrth drefnu Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol i ddysgwyr, gall aelodau o staff ddewis pa asesiadau fydd yn cael eu sefyll: Darllen Cymraeg neu Ddarllen Saesneg. Nid yw'r cwestiynau a'r testunau ar gael yn yr iaith amgen, gan fod yr asesiadau yn asesu sgiliau dysgwyr wrth ddarllen y naill iaith neu'r llall. Mae'r gofynion statudol ar gyfer yr asesiadau y dylai dysgwyr eu sefyll wedi'u nodi yn Atodiad 4.

Asesiadau ymgyfarwyddo

Cyn sefyll asesiadau personol, dylai ysgolion roi cyfle i ddysgwyr roi cynnig ar asesiadau ymgyfarwyddo ar gyfer Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) ac Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol. Drwy wneud hynny, bydd dysgwyr yn gallu gweld y mathau o gwestiynau a deall sut i'w hateb, a hefyd ddod yn gyfarwydd â gwe-lywio'r asesiadau.

Ceir mynediad at asesiadau ymgyfarwyddo ar wefan yr asesiadau drwy Hwb.

Asesiadau mewn lleoliadau eraill (e.e. unedau cyfeirio disgyblion)

Mae'n rhaid i bob dysgwr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol brif ffrwd sefyll yr asesiadau personol unwaith yn ystod pob blwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn ysgol brif ffrwd a hefyd mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig (oni bai bod penderfyniad i ddatgymhwyso wedi'i wneud). Y pennaeth yn yr ysgol brif ffrwd lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu gweinyddu. Gall pennaeth drefnu i'r asesiadau personol gael eu sefyll yn y naill leoliad neu'r llall.

Mynediad a datgymhwyso (addasiadau)

Mae'r asesiadau personol yn addas ar gyfer llawer o ddysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA); maent yn cydweddu â thechnolegau cynorthwyol safonol ac mae fersiynau wedi'u haddasu ar gael. I gael gwybodaeth am yr asesiadau personol wedi'u haddasu gweler Atodiad 6. Er mwyn cael gwybodaeth am ddatgymhwyso, gweler Atodiad 7.

Sefyll yr asesiadau

Cyn y gall dysgwr sefyll asesiad personol, mae'n rhaid i aelod o staff sydd â'r mynediad priodol i hwyluso asesiad ryddhau'r asesiad a drefnwyd i'r dysgwr. Gall aelodau o'r staff ddewis rhyddhau asesiadau ar gyfer dysgwyr unigol, neu ar gyfer dosbarth cyfan o ddysgwyr. Nodwch nad oes opsiwn ar gael i ryddhau asesiadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr sy'n fwy na dosbarth cyfan, h.y. grŵp blwyddyn sy'n cynnwys nifer o ddosbarthiadau. Mae canllawiau ar drefnu a hwyluso asesiadau ar gael ar wefan yr asesiadau.

Unwaith y bydd asesiad wedi'i ryddhau i'r dysgwr, gall y dysgwr gael mynediad at yr asesiad ar wefan yr asesiadau drwy Hwb.

Dylai papur a phennau ysgrifennu/pensiliau fod ar gael i ddysgwyr ar gyfer unrhyw waith cyfrifo bras/nodiadau. Ni chaiff gwaith cyfrifo/nodiadau dysgwyr eu hasesu fel rhan o'r Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) na'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol. Dylid egluro i ddysgwyr mai dim ond yr ateb a gyflwynir ar y sgrin y gellir ei ystyried.

Os na all dysgwyr ateb cwestiwn dylent gael eu hannog i symud ymlaen i'r un nesaf. Os bydd dysgwyr yn colli cwestiwn, byddant yn cael cwestiwn ychydig yn haws. Dylai staff esbonio i ddysgwyr **na allant fynd yn ôl at gwestiwn blaenorol na newid ateb unwaith eu bod wedi symud ymlaen at y cwestiwn nesaf.** Mewn asesiadau personol, mae'r cwestiynau a ddewisir yn seiliedig ar yr ymateb i'r cwestiynau blaenorol. Felly, nid oes modd symud nôl drwy'r cwestiynau.

Amodau asesiadau

Mae modd bod yn llai ffurfiol wrth weinyddu asesiadau personol, gan nad oes angen i ddosbarthiadau cyfan o ddysgwyr sefyll yr asesiadau ar yr un pryd, ac mae pob dysgwr yn derbyn set wahanol o gwestiynau/testunau. Fel yr eglurwyd uchod, gall ysgolion drefnu'r asesiad ar gyfer dysgwyr unigol, grwpiau bach neu ddosbarthiadau cyfan, yn unol â'u dymuniadau a'u cyfleusterau.

Er mwyn i athrawon gael yr wybodaeth fwyaf cywir am sgiliau dysgwyr, dylai ysgolion sicrhau'r canlynol:

- bod gan ddysgwyr yr holl adnoddau angenrheidiol
- gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith a gynhrychir yn yr asesiadau
- bod goruchwyliaeth briodol bob amser.
- bod yr asesiadau'n cael eu gweinyddu yn unol â'r canllawiau a roddir yn y llawlyfr hwn ar gyfer Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) ac Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol.

O ran dysgwyr:

- dylent fod yn gallu gweithio mewn amodau cyfforddus, heb i neb darfu arnynt ac yn unigol
- dylent fod yn ymwybodol mai diben yr asesiad yw darganfod yr hyn y gallant ei wneud a'r hyn na allant ei wneud, fel y gall athrawon eu helpu i ddatblygu eu sgiliau, ac felly mae'n rhaid mai eu hatebion eu hunain ydynt ac na ddylent drafod cwestiynau.

Seibiannau

Yn ystod yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol gellir rhoi seibiant i ddysgwyr o unrhyw oedran drwy oedi'r asesiadau ar unrhyw adeg. Dylai aelodau o staff roi ystyriaeth benodol i roi seibiannau i ddysgwyr iau. Yr ysgol a gaiff benderfynu ar hyd y seibiant a gall dysgwyr adael yr ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod hwn. Gall yr aelod o staff oedi'r asesiad, a gall dysgwyr allgofnodi o'r asesiad ac yna fewngofnodi eto ar ôl y seibiant. Mae'n bwysig bod yr aelod o staff yn oedi asesiad y dysgwr ar wefan yr asesiadau; fel arall, bydd y dysgwr yn gallu cael mynediad ato o ddyfais wahanol.

Mae'n rhaid i'r asesiad gael ei gwblhau mewn un diwrnod. Os na all dysgwr ei gwblhau mewn un diwrnod, dylid canslo'r asesiad a'i aildrefnu, neu bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno dros nos.

Absenoldeb

Os bydd dysgwr yn absennol ar y diwrnod y trefnwyd asesiad, gellir aildrefnu'r asesiad i'w gynnal rywbryd arall. Os nad yw'r dysgwr wedi dechrau'r asesiad, caiff yr asesiad ei ganslo'n awtomatig dros nos. **Os yw dysgwr wedi dechrau'r asesiad ond na all ei gwblhau (e.e. caiff ei anfon adref yn sâl) yna dylid canslo'r asesiad.**

Ar ôl yr asesiadau

Adborth

Mae nifer o adroddiadau ar gael ar gyfer dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys dosbarthiadau cyfan.

Mae adborth ar unigolion ar gael ar wefan yr asesiadau ddiwrnod ar ôl i'r asesiadau gael eu cwblhau. Bydd athrawon yn cael cyfle i fwrw golwg dros yr adborth cyn ei ryddhau i ddysgwyr. Mae canllawiau ar gael ar wefan yr asesiadau.

Mae adroddiadau ar ddysgwyr ar gyfer Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) hefyd ar gael sy'n dangos y cynnydd o un flwyddyn i'r llall ac yn cynnwys sgôr safonedig ar sail oedran. Bydd adroddiadau ar ddysgwyr ar gyfer Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol ar gael ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019/20 yn dangos man cychwyn dysgwyr o ran cynnydd ac yn cynnwys sgôr safonedig ar sail oedran.

Dim ond i'r aelodau hynny o staff y mae'r swyddogaethau 'Gweinyddu' neu 'Hwyluso a dadansoddi' wedi cael eu neilltuo iddynt y mae'r adroddiadau ar gael.

Mae'n rhaid i adroddiadau ac adborth ar ddysgwyr unigol gael eu rhannu â rhieni/gofalwyr fel rhan o'r broses adrodd arferol. Argymhellir y dylai ysgolion rannu adborth ar ddysgwyr â rhieni/gofalwyr pan fydd yr wybodaeth yn gyfredol. Os caiff yr aseidiadau eu sefyll ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd, dylai rhieni/gofalwyr gael y ddwy set o adborth.

Monitro'r trefniadau asesu

Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i fonitro'r trefniadau asesu mewn 10 y cant o leiaf o'u hysgolion. Gall y gwaith o fonitro sut mae ysgolion yn gweithredu'r aseidiadau personol ddigwydd ar unrhyw adeg.

Bydd ymweliadau monitro yn canolbwyntio ar hyrwyddo arfer da wrth ddefnyddio'r aseidiadau, ac ar y ffordd y mae'r wybodaeth am sgiliau dysgwyr a ddarparwyd gan yr aseidiadau wedi cael ei defnyddio i gynllunio gweithgarwch dysgu ac addysgu.

Cymorth

Mae canllawiau pellach ar yr aseidiadau personol, gan gynnwys rheoli mynediad defnyddwyr, trefnu a sefyll aseidiadau a chael hyd i adborth ac adroddiadau, ar gael ar wefan yr aseidiadau. I gael cymorth ychwanegol, gall ysgolion gysylltu hefyd â Desg Gymorth yr Aseidiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru.

Atodiad 1: Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – canllawiau ar weinyddu'r prawf

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â gofynion penodol gweinyddu'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Nodwch: Bydd canllawiau ar weinyddu'r prawf sy'n rhoi manylion llawn ar sut i weinyddu'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn cael eu darparu i ysgolion gyda deunyddiau'r profion.

Mae'n bwysig iawn bod profion yn cael eu gweinyddu fel y bydd y canlyniadau yn adlewyrchiad dibynadwy a theg o alluoedd dysgwyr. **Ni** ddylai'r angen i weinyddu'r profion o dan amodau safonol greu amgylchedd sy'n achosi straen neu fraw. Gan mai diben y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yw rhoi gwybodaeth ffurfiannol ddefnyddiol, dylai profion gael eu cyflwyno mewn ffordd gadarnhaol a phwrpasol, gan annog dysgwyr i wneud eu gorau glas heb achosi unrhyw bryder.

Mae'n bwysig iawn hefyd fod ysgolion yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r canllawiau hyn o ran paratoi ar gyfer y profion: mae'r dasg o gyflwyno'r deunyddiau ysgogi ar ddechrau pob prawf yn gofyn am waith cynllunio a pharatoi gofalus gan weinyddwr y prawf.

Ni ddylid defnyddio'r sgrïptiau na'r cyflwyniadau sleidiau i athrawon a ddarperir gyda'r deunyddiau ysgogi yn y prif Brofion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio deunyddiau prawf print bras wedi'u haddasu neu ddeunyddiau prawf Braille wedi'u haddasu. Caiff sgrïptiau a deunyddiau ysgogi wedi'u haddasu eu cynnwys yn y *Nodiadau i athrawon* a ddarperir gyda'r profion wedi'u haddasu.

Strwythur y profion

Rhoddir un llyfryn prawf i ddysgwyr.

Ar gyfer Blynnyddoedd 2 a 3 yn unig, mae llyfrynau'r prawf wedi'u rhannu'n ddwy adran, y mae pob un yn ymwneud â set wahanol o ddeunyddiau ysgogi a gyflwynir i ddysgwyr yn union cyn dechrau ar y cwestiynau cysylltiedig.

Ar gyfer Blynnyddoedd 4 i 9, mae'r grŵp cychwynnol o gwestiynau yn gysylltiedig â'r deunyddiau ysgogi a gyflwynir i ddysgwyr ar ddechrau'r profion. Yna, bydd rhagor o gwestiynau gyda chyd-destunau annibynnol.

Adnoddau

Bydd angen pen ysgrifennu neu bensil ar bob dysgwr (yn dibynnu ar ba un y maent yn ei ddefnyddio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth), copi o lyfryn y prawf, pren mesur a rwber.

Blynyddoedd 2 i 4	Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio cyfrifianellau.
Blynyddoedd 5 i 9	Caniateir i ddysgwyr ddefnyddio cyfrifianellau a dylid eu hannog i'w defnyddio lle y bo hynny'n briodol.

Amseriadau a seibiannau gorffwys

Ni ddylai'r profion bara am fwy na 30 munud i gyd.

Dylid neilltuo hyd at 15 munud cyn y profion (neu ran o'r profion) i roi cyfarwyddiadau'r prawf, dosbarthu'r llyfrynnau a chyflwyno'r deunyddiau ysgogi.

Os rhoddir seibiant, dylid casglu'r llyfrynnau a'u dychwelyd i'r dysgwyr pan fydd y profion yn aildechrau.

Pan roddir seibiannau gorffwys, mae'n bwysig sicrhau'r canlynol:

- ni roddir mwy na chyfanswm yr amser penodedig ar gyfer pob prawf
- mae'r dysgwr yn cael cyfle i roi cynnig ar bob rhan o'r papur, er mwyn i'r prawf adlewyrchu ei gyrhaeddiad yn briodol
- caiff dysgwyr eu hatgoffa o'r pwyntiau allweddol, megis pwysigrwydd bwrw golwg dros eu gwaith, cyn aildechrau'r prawf ar ôl seibiant.

Dylid dweud wrth ddysgwyr sy'n gorffen yn gynnar am fwrw golwg dros eu gwaith, ond yna dylid caniatáu iddynt ddarllen yn dawel, os yw'r athro yn teimlo bod hyn yn briodol.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3

Mae'n rhaid i gyfnod y prawf gael ei rannu'n ddwy adran 15 munud er mwyn cydfynd â'r ddwy set o gyd-destunau ysgogi a chwestiynau. Rhwng yr adrannau, dylid rhoi seibiant i ddysgwyr er mwyn atal blinder neu ddiffyg canolbwyntio. Yr athro a gaiff bennu hyd y seibiant hwn, ond dylai fod yn ddigonol i sicrhau bod dysgwyr yn bwrw eu blinder cyn dechrau ail ran y profion. Gwnewch yn siŵr na roddir unrhyw fewnbwn i ddysgwyr yn ystod y seibiant a allai ddylanwadu ar eu perfformiad yn y prawf. Dylech eu hannog i beidio â thrafod y profion.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 4

Dim ond os bydd yr athro yn asesu bod hyn yn briodol y caiff cyfnod y prawf ei rannu'n ddwy adran 15 munud er mwyn atal blinder neu ddiffyg canolbwyntio. Yr athro a gaiff bennu hyd y seibiant hwn ond dylai fod yn ddigonol i sicrhau bod dysgwyr yn bwrw eu blinder cyn dechrau ail adran y profion. Gwnewch yn siŵr na roddir unrhyw fewnbwn i ddysgwyr yn ystod y seibiant a allai ddylanwadu ar eu perfformiad yn y prawf. Dylech eu hannog i beidio â thrafod y profion.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 5 i 9

Dylai'r profion gael ei sefyll mewn un eisteddiad.

Paratoi ar gyfer y profion

Dylid cytuno ar baratodau ar gyfer unrhyw drefniadau mynediad ymlaen llaw i ddysgwyr unigol (gweler canllawiau ar drefniadau mynediad yn Atodiad 5).

Cyn y profion, mae'n rhaid i ysgolion sicrhau'r canlynol:

- gallant gael mynediad at y deunyddiau ysgogi ar y ddisg a ddarperir. Caiff canllawiau technegol ar gael mynediad at y deunyddiau ysgogi eu darparu cyn cyfnod y prawf yn y canllawiau ar weinyddu'r profion
- mae'r aelod o staff sy'n cyflwyno'r deunyddiau ysgogi wedi darllen drwy'r sgrïpt a ddarperir ac wedi ei llwyr ddeall, ynghyd â'r cyflwyniad ar y ddisg.
- mae lleoliad y prawf yn briodol ar gyfer cyflwyno'r deunyddiau, mae offer i dafluio'r deunyddiau ysgogi (cyfrifiadur, nid chwaraewr CD) yn bresennol ac yn gwbl weithredol, a gall pob dysgwr weld a chlywed y cyflwyniad, ond eto weithio'n unigol unwaith bod y profion wedi dechrau.

Pan fydd y deunyddiau ysgogi yn cael eu cyflwyno, gall y dysgwyr eistedd gyda'i gilydd, e.e. ar y llawr, ond mae'n rhaid iddynt symud i'w priod le i gwblhau'r prawf.

Gweinyddu'r profion

Esboniwch i'r dysgwyr:

- fod yn rhaid iddynt weithio'n unigol
- na ddylent siarad â'i gilydd, na chopio o gwaith ei gilydd
- y dylent wneud yn siŵr bod eu hatebion yn glir, ac y dylent newid eu hatebion, os oes angen, drwy roi croes drwyddynt neu ddileu gwallau
- y dylent bob amser ddangos eu gwaith cyfrifo (dylid pwysleisio hynny)
- y dylent wneud eu gwaith cyfrifo yn y blychau a ddarperir, ond gallant ysgrifennu unrhyw le ar y dudalen. Gallant hefyd ysgrifennu ar ddiagramau/graffiau, ac ati os dymunant
- na allwch eu helpu i ateb unrhyw un o'r cwestiynau, ond os bydd angen cymorth arnynt i ddarllen cwestiwn, dylent godi eu llaw
- os bydd cwestiwn yn rhy anodd iddynt, dylent roi cynnig arni ac yna symud i'r un nesaf
- y byddant yn cael 30 munud i gwblhau'r prawf (os rhoddir seibiant gorffwys, dywedwch wrthynt pryd y bydd yn digwydd)
- pan fyddant wedi gorffen, dylent fynd nôl a rhoi cynnig ar unrhyw gwestiynau nad ydynt wedi ceisio eu hateb eto. Yna, dylent fwrw golwg dros eu gwaith (dylid pwysleisio hynny), a dim ond ar ôl gwneud hynny y dylent nodi eu bod wedi cwblhau'r prawf drwy godi eu llaw.

Rhowch gopi o lyfryn y prawf i bob dysgwr a gofyn i ddysgwyr gwblhau'r clawr blaen drwy nodi'r manylion canlynol:

- enw cyntaf
- cyfenw
- dosbarth
- ysgol

- dyddiad geni (bydd angen dyddiad geni cywir er mwyn cyfrifo sgoriau safonedig ar sail oedran)
- dyddiad y prawf (bydd angen dyddiad prawf cywir er mwyn cyfrifo sgoriau safonedig ar sail oedran).

Ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3, am resymau cywirdeb, efallai y byddwch am gwblhau rhai o fanylion y dysgwyr eich hun (e.e. ysgol, dyddiad geni, dyddiad y prawf).

Hefyd, ar gyfer Blynnyddoedd 2 a 3, mae'n bwysig sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol na ddylent symud ymlaen i ail adran y llyfrynnau nes eu bod wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny. Esboniwrch, ar gyfer adran gyntaf y profion, y byddant yn ateb cwestiynau nes eu bod yn gweld 'Stopiwrch yma'; yna dylent stopio a bwrw golwg dros eu gwaith. Ar gyfer ail adran y profion, gofynnwch i'r dysgwyr agor eu llyfrynnau ar dudalen berthnasol y profion. Dywedwch wrthynt hefyd fod y profion yn cynnwys cwestiynau ar y dudalen gefn.

Wrth i'r dysgwyr weithio eu ffordd drwy'r profion, dylech gadarnhau o bryd i'w gilydd eu bod yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud a'u bod yn gweithio drwy'r holl gwestiynau.

Cyflwyno'r deunyddiau ysgogi

Ewch drwy'r cyflwyniad, gan ddefnyddio'r sgript a ddarperir (ar gyfer Blynnyddoedd 2 a 3 mae dau gyflwyniad ar wahân sy'n gysylltiedig â dwy adran y profion). Dylid eu cyflwyno gyda diddordeb a brwdfrydedd.

Gallwch ddefnyddio'ch geiriau eich hun i ymhelaethu ar y sgript os dymunwch, am ei bod yn bwysig iawn bod dysgwyr yn deall y senario ac yn ymddiddori ynddo.

Dylech annog dysgwyr i ymddiddori yn y cyflwyniad drwy gwestiynau a thrafodaeth gyda'u cyd-ddysgwyr fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad yw hyn yn arwain at roi cymorth yn anfwriadol i ddysgwyr yng nghwestiynau'r prawf eu hunain, felly dylech ofalu eich bod yn cyfyngu'ch trafodaeth ar y cam hwn (ac yn ystod y profion) i gyd-destun a chynnwys y deunyddiau ysgogi eu hunain.

Ni ellir rhoi unrhyw gymorth gyda'r rhifedd sydd i'w asesu.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cyflwyniad, gan gynnwys y nodiadau yn y sgript sy'n atgoffa dysgwyr i ddangos eu gwaith cyfrifo, bwrw golwg dros eu gwaith ac ati, nodwch yr amser a dechreuwch y prawf.

Os bydd dysgwyr yn eich dosbarth yn cwblhau'r prawf cyn pen 30 munud a'ch bod wedi'ch bodloni eu bod nhw i gyd wedi cael digon o gyfle i fwrw golwg dros eu gwaith, dylid caniatáu iddynt ddarllen yn dawel, os ydych yn teimlo bod hyn yn briodol.

Pan fydd cyfnod y prawf wedi dod i ben, gofynnwch i'r dysgwyr orffen ysgrifennu.

Yn olaf, casglwch bob llyfryn.

Ymateb i gwestiynau

Ceisiwch osgoi unrhyw gwestiynau am bensiliau a rwberi drwy ddweud wrth ddysgwyr sut i gael rhagor o gyflenwadau. Yn gyffredinol, dilynwch yr hyn rydych yn ei wneud fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Gallwch ateb cwestiynau dilys sy'n gofyn am eglurhad am beth i'w wneud ar ddechrau'r prawf. Unwaith y bydd y prawf wedi dechrau, dim ond os bydd dysgwyr yn codi eu llaw y dylech ymateb. Ewch draw atynt ac atebwch eu cwestiwn yn breifat.

Os bydd pob dysgwr yn clywed y cyfarwyddiadau, ni ddylai fod angen eu hailadrodd fwy nag unwaith neu ddwy. Os ydych yn teimlo bod dysgwyr sy'n dueddol o fod yn bryderus, sefwch wrth eu hymyl ac atebwch unrhyw gwestiynau'n dawel.

Dylech annog dysgwyr i ofyn cwestiynau pan fydd y deunyddiau ysgogi yn cael eu cyflwyno: mae'n bwysig eu bod yn deall y cyd-destun, fel y gallant ddeall cwestiynau'r prawf sy'n dilyn yn hawdd. Fodd bynnag, dylech fod yn ofalus nad ydych yn rhoi gwybodaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r rhifedd sy'n destun y prawf.

Yn ystod y profion, gellir rhoi cymorth i ddysgwyr ddarllen y testun ond ni chaniateir i chi esbonio'r ystyr rhifyddol. Gallwch eu hatgoffa o gyd-destunau ond dylech ateb cwestiynau fel 'Beth yw ystyr xxx?' drwy ddweud 'Beth wyt ti'n ei feddwl? – beth am roi cynnig ar geisio gweithio'r peth allan dy hun'.

Trefniadau mynediad

Mae'r profion wedi cael eu cynllunio i'w gwneud yn hygyrch i'r mwyafrif o ddysgwyr yn y grwpiau blwyddyn a argymhellir. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhyw fath o drefniant mynediad ar nifer fach o ddysgwyr er mwyn iddynt allu dangos y cyrhaeddiad gorau posibl yn y profion.

Nodir y rhain yn llawn yn Atodiad 5. Wrth weinyddu'r prawf, mae'n rhaid ystyried y trefniadau mynediad y cytunwyd arnynt ymlaen llaw ar gyfer dysgwyr unigol.

Fel y nodir yn Atodiad 5, efallai y byddai'n fuddiol i rai dysgwyr pe baent yn gweithio mewn ystafell ar wahân. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod yn rhaid i drefniadau gael eu gwneud ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn gallu cael mynediad at y deunyddiau ysgogi, naill ai o fewn grŵp mawr cyn symud i ystafell ar wahân, neu'n unigol yn yr ystafell arall.

Nid yw'r profion hyn yn gofyn am ysgrifennu estynedig gan ddysgwyr er mwyn ateb y cwestiynau. Fodd bynnag, ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar eu rheolaeth echddygol, efallai y byddai'n fuddiol pe bai rhywun yn ysgrifennu eu hatebion wrth iddynt arddweud eu hymateb.

Mae'n dderbyniol darparu darllenydd i ddysgwyr sy'n cael anhawster darllen ar gyfer Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu). Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddarllenwyr sicrhau mai'r unig gymorth y maent yn ei roi yw cymorth i ddarllen y testun: dylent

ofalu nad ydynt yn helpu dysgwyr yn anfwriadol i ddeall neu ymateb i'r rhifedd sy'n cael ei asesu.

Cwestiynau ac atebion

A oes rhaid i bob dysgwr yn y dosbarth sefyll y profion?

Y pennaeth sy'n penderfynu na ddylai dysgwr sefyll prawf, ar ôl ystyried y canllawiau ar drefniadau mynediad yn Atodiad 5.

Beth y dylwn ei wneud os bydd larwm tân yn canu yn ystod y profion?

Yn ddelfrydol, ni ddylai ymarfer larwm tân gael ei drefnu yn ystod cyfnod y prawf. Fodd bynnag, os nad oes modd osgoi hyn neu os bydd larwm tân yn canu'n go iawn yn ystod y profion, yna mae'n rhaid i'r profion gael ei stopio. Os oes modd, nodwch faint o gyfnod y prawf sy'n weddill pan gaiff y profion eu stopio. Pan fydd y sefyllfa yn mynd yn ôl i'r arferol, gellir ailddechrau'r profion a rhoi'r amser sy'n weddill. Dylid annog dysgwyr i beidio â thrafod cynnwys y profion nes bod y profion wedi'u cwblhau.

Beth y dylwn ei wneud os bydd dysgwr yn cyrraedd yn hwyr am y profion?

Yn ddelfrydol, dylai'r profion gael eu cynnal pan fydd y dosbarth cyfan yn bresennol ac na fydd dim yn tarfu arnynt. Fodd bynnag, os bydd dysgwr yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ac yn colli dechrau'r profion pan gaiff y deunyddiau ysgogi eu cyflwyno, ni fydd modd iddynt barhau bryd hynny a bydd angen trefnu iddynt eistedd rywle arall yn ystod y profion, a'u sefyll wedyn yn ddiweddarach.

Atodiad 2: Canllawiau cyffredinol ar weinyddu'r asesiadau personol

Dylid darllen y canllawiau cyffredinol hyn ar weinyddu'r asesiadau ar y cyd â'r canllawiau ar gyfer asesiadau penodol a gyflwynir yn Atodiadau 3 a 4.

Strwythur yr asesiadau

Caiff yr Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol eu creu o gronfa fawr o gwestiynau (a thestunau ar gyfer yr asesiadau darllen), sy'n seiliedig ar y sgiliau yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9.

Caiff pob asesiad ei deilwra yn ôl ymatebion y dysgwr, h.y. mae'n dewis cwestiynau (a thestun ar gyfer asesiadau darllen) i'w cyflwyno i'r dysgwr yn seiliedig ar atebion y dysgwr i gwestiynau blaenorol. Mae'r system asesu yn stopio'r asesiad unwaith y bydd wedi casglu digon o wybodaeth i wneud penderfyniad dibynadwy ar sgiliau'r dysgwr neu unwaith y bydd y dysgwr yn cyrraedd uchafswm nifer y cwestiynau a ganiateir. Mae'r broses bersonoli hon yn golygu y bydd pob dysgwr yn gweld set wahanol o gwestiynau (a thestunau) ac y bydd nifer y cwestiynau (a'r testunau) yn amrywio.

Trefnu mynediad at yr asesiadau

Cael mynediad at yr asesiadau

Bydd ysgolion yn defnyddio Hwb (hwb.llyw.cymru/) i fewngofnodi a chael mynediad at yr asesiadau.

I gael gwybod sut y gall defnyddwyr Hwb gael gafael ar enw defnyddiwr a chyfrinair, gweler y ddolen ganlynol: hwb.gov.wales/getting-started.

Dylai ysgolion nodi bod gwefan yr asesiadau yn dibynnu ar ddata gan system gwybodaeth reoli ysgolion. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod eu system gwybodaeth reoli yn gyfredol a bod Cleient Darparu Hwb⁴ yn cael ei redeg yn rheolaidd.

Trefnu mynediad

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, mae'n rhaid i'r pennaeth, neu'r aelod o staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, ddefnyddio ei fanylion/manyion mewngofnodi ar gyfer gwefan Hwb, a chânt ei (h)atgoffa i gydnabod cyfrifoldeb am ddiogelu data'r ysgol.

Ar ôl gwneud hynny, gellir neilltuo mynediad i athrawon eraill ac aelodau eraill o staff er mwyn iddynt ddefnyddio gwefan yr asesiadau.

⁴ Gweler yr adran gymorth ar Cleient Darparu Hwb yn hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/rheoli-defnyddwyr.

Mae pedwar opsiwn mynediad gwahanol.

1. Gweinyddu: gall defnyddwyr drefnu a hwyluso asesiad, a gweld adborth ac adroddiadau ar yr ysgol gyfan. Yn ogystal â hyn, defnyddwyr sy'n gallu golygu'r swyddogaethau a'r mynediad ar gyfer aelodau eraill o staff. Pennaeth, neu aelod o staff sy'n gweithredu ar ei r(h)an, sy'n gallu neilltuo'r swyddogaeth 'Gweinyddu' i ddefnyddwyr ychwanegol. ('Defnyddiwr' yw unrhyw aelod o staff sy'n gallu cael mynediad at wefan yr asesiadau.)
2. Hwyluso a dadansoddi: gall defnyddwyr drefnu a hwyluso asesiad, a gweld adborth ac adroddiadau.
3. Hwyluso: gall defnyddwyr drefnu a hwyluso asesiad.
4. Dim mynediad: ni all defnyddwyr gael mynediad at asesiadau nac adborth nac adroddiadau. (I ddechrau, caiff pob defnyddiwr, ar wahân i'r pennaeth, ei neilltuo fel 'Dim mynediad'.)

Noder: Argymhellir bod y swyddogaeth 'Gweinyddu' yn cael ei neilltuo'n gynnil, a dim ond i'r aelodau hynny o staff y mae'n hanfodol iddynt gael y lefel hon o fynediad.

Caiff pob aelod o staff ei atgoffa o gyfrinachedd a diogelwch data.

Cyn gweinyddu asesiad

Cadarnhau'r trefniadau TG

Er mwyn cynnal asesiad personol, bydd angen y canlynol ar ysgolion:

- cysylltiad â'r rhyngwrwd – fel arfer bydd angen i chi gael lled band o 2Mbps o leiaf os ydych yn asesu dosbarth o 30 o ddysgwyr, heb unrhyw alwadau sylweddol eraill ar y rhwydwaith ar y pryd
- dyfeisiau – gall ysgolion ddefnyddio cyfuniad o ddyfeisiau wrth redeg asesiadau
- manylion mewngofnodi Hwb ar gyfer pob dysgwr sy'n sefyll yr asesiadau.

Dyfeisiau y gellir eu defnyddio

Mae'r asesiadau wedi cael eu cynllunio i gydweddu ag ystod eang o ddyfeisiau. Bydd aelodau o staff yn gallu trefnu asesiadau yn unol â dymuniadau a chyfleusterau eu hysgol. Gall yr asesiadau gael eu sefyll gan ddysgwyr unigol neu mewn grwpiau bach, yn dibynnu ar y dyfeisiau sydd ar gael.

Gellir defnyddio'r asesiadau ar y canlynol:

- cyfrifiaduron pen desg
- gliniaduron – gan gynnwys Chromebooks
- llechi – gan gynnwys iPads

sydd â phorwr modern wedi'i osod (gweler yr adran nesaf).

Cyn cynnal unrhyw asesiad, dylai dyfeisiau fod wedi'u gwefru'n llawn a'u diweddarau.

Porwyr y gellir eu defnyddio

Dylech ddefnyddio un o'r porwyr canlynol (dyma'r gofynion sylfaenol o ran porwyr):

- Google Chrome 59
- Internet Explorer 11
- Mozilla Firefox 55
- Safari 10.

Noder: Nid yw Microsoft Edge yn borwr a gefnogir ar hyn o bryd. Er bod modd cael mynediad at y wefan asesiadau personol gan ddefnyddio Edge, nid yw'n gadael i ddefnyddwyr lansio'r Aseidiadau Personol Darllen os yw'r fersiwn yn hŷn na fersiwn 77. Disgwylir i Edge gael ei ddiweddarau i fersiwn 77 yn Microsoft Windows yn gynnar yn 2020.

Trefnu asesiadau

Noder: Mae'n rhaid i'r pennaeth, neu'r aelod enwebedig o staff, neilltuo mynediad cyn y gall defnyddwyr drefnu asesiadau neu gael adborth.

Mae'n rhaid i asesiadau gael eu trefnu ar ddiwrnod ysgol penodol ac **o leiaf y diwrnod cyn i'r asesiad gael ei gynnal**. Mae'n rhaid i ysgolion ddefnyddio gwefan yr asesiadau a gyrchir drwy Hwb, er mwyn trefnu asesiadau. Mae canllaw cam wrth gam ar drefnu asesiadau ar gael ar y wefan hon.

Ar gyfer yr Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol, bydd set o gwestiynau cychwynnol a thestun yn cael ei neilltuo i ddysgwyr yn seiliedig ar eu grŵp blwyddyn cwricwlwm ar gyfer yr asesiad cyntaf y maent yn ei sefyll (neu gall yr athro ddad-wneud hynny a rhoi set o gwestiynau cychwynnol haws os yw hynny'n briodol).

Ar gyfer yr Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol), y system sy'n dewis cwestiwn yn seiliedig ar eu grŵp blwyddyn cwricwlwm, oni bai bod yr athro'n dad-wneud hynny i roi cwestiwn cychwynnol haws.

Wrth drefnu asesiadau, gall aelodau o staff ddewis opsiynau hygyrchedd, newidiadau lliw a chyferbyniad (gweler Atodiad 6).

Amseriadau a seibiannau gorffwys

Cyn dechrau'r asesiadau, dylid rhoi amser i ddysgwyr fewngofnodi a sefyll asesiadau ymglyfarwyddo, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.

Ni phennir terfyn amser ar gyfer yr asesiadau, felly gall y dysgwr ymateb i'r cwestiynau a gyflwynir wrth ei bwysau ei hun. Dylid annog dysgwyr i symud ymlaen drwy'r cwestiynau, yn hytrach na threulio gormod o amser ar gwestiynau na allant eu hateb.

Mae hyd yr amserau bras y gallai'r asesiadau personol eu cymryd wedi'u nodi yn Atodiadau 3 a 4. Cynghorir aelodau o staff i arfer eu barn broffesiynol yn achos dysgwyr sy'n cymryd mwy o amser na hyn i gwblhau'r asesiad. Gall aelodau o staff

ddewis annog y dysgwr i weithio'n gyflymach neu roi'r gorau i asesiad sy'n cymryd amser afresymol o hir. Gall yr aelod o staff oedi neu ganslo'r asesiad.

Gellir rhoi seibiannau i ddysgwyr o unrhyw oedran, a gellir cynnal asesiad fesul tipyn drwy gydol y diwrnod ysgol. Argymhellir bod aelodau o staff yn rhoi ystyriaeth benodol i ddysgwyr iau, ac y dylai dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3 gael seibiannau gorffwys. Yr ysgol sy'n penderfynu ar hyd y seibiant. Dylai aelodau o staff fonitro i benderfynu pryd neu os bydd seibiannau yn briodol i ddysgwyr eraill.

Pan gaiff asesiad ei oedi neu ei stopio, caiff canlyniadau'r cwestiynau y mae'r dysgwr wedi'u hateb eu lanlwytho am 5p.m. ar y diwrnod y cafodd yr asesiad ei sefyll oni chafodd yr asesiad ei ganslo. Ni ellir ailddechrau asesiad lle mae atebion wedi cael eu cyflwyno.

Gosod yr ystafell ddsbarth

Ar ddiwrnod yr asesiadau, sicrhewch y canlynol:

- bod yr ystafell wedi'i gosod fel y gall dysgwyr weithio ar ddyfeisiau'n annibynnol
- os yw gliniaduron a llechi yn cael eu defnyddio, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u gwefru ac yn barod i'w defnyddio ar gyfer asesiadau
- bod papur, a phen ysgrifennu neu bensil ar gael i ddysgwyr ar gyfer unrhyw waith cyfrifo bras/nodiadau
- bod aelodau o staff wedi ystyried gweithgareddau i ddysgwyr sy'n gorffen yn gynnar.

Dysgwyr yn mewngofnodi

Pan gaiff eu hasesiadau eu rhyddhau gan athro neu aelod o staff ar wefan yr asesiadau, dylai dysgwyr fynd i hwb.llyw.cymru/ a mewngofnodi i Hwb drwy ddefnyddio eu manylion mewngofnodi. Dylent gael cymorth i fewngofnodi os bydd angen. Dylai ddysgwyr fynd i wefan yr asesiadau a chlicio naill ai 'Rhifedd (Gweithdrefnol)', 'Darllen Cymraeg' neu 'Darllen Saesneg'.

Hwyluso asesiad personol

Ar y dyddiad y mae asesiad wedi cael ei drefnu, gall staff sydd â swyddogaethau 'Hwyluso' 'Hwyluso a dadansoddi' neu 'Gweinyddu' hwyluso asesiad. Dylai staff fewngofnodi i Hwb a mynd i wefan yr asesiadau. Yn gyntaf, bydd angen rhyddhau'r asesiadau i'w defnyddio gan y dysgwr. Gall defnyddwyr hwyluso'r asesiadau o'r adran 'Asesiadau heddiw' ar dudalen yr 'Hafan', neu'r dudalen 'Asesiadau'. Gweler y canllawiau ar wefan yr asesiadau i gael manylion am hyn.

Cyn i'r asesiad ddechrau, dylai aelodau o staff atgoffa dysgwyr o **nodweddion allweddol** yr asesiadau hyn.

- Y diben yw gallu darparu gwybodaeth am eu sgiliau fel eu bod yn deall yr hyn y maent yn gallu ei wneud a'r hyn y maent angen ei wella.
- **Ni all** dysgwyr **fynd nôl a newid ateb blaenorol unwaith eu bod wedi symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf.**

- Os bydd dysgwyr yn cael anhawster gyda chwestiwn penodol ac na allant ei ateb, dylent **symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf**.
- Efallai y bydd angen i ddysgwyr sgrolio i lawr ar sgriniau i weld cynnwys llawn cwestiwn. Bydd hysbysiad gwyrdd yn ymddangos ar y sgrin i'w rhybuddio am hyn.
- Os bydd dysgwr yn cael problemau gyda'i gyfrifiadur/dyfais, dylai godi ei law a dweud wrth athro neu aelod o staff.
- Nid oes terfyn penodol o ran hyd; pan fydd y system wedi casglu digon o wybodaeth daw'r asesiad i ben yn awtomatig.

Yn ystod yr asesiadau, dylai'r athro neu aelod o staff edrych i weld:

- a yw dysgwyr yn mynd drwy'r cwestiynau a symud ymlaen os nad ydynt yn gwybod beth yw'r ateb i gwestiwn penodol
- a yw dysgwyr yn gweithio'n onest ac yn annibynnol
- a oes gan ddysgwyr bapur a phen ysgrifennu neu bensil ar gyfer cyfrifo bras/nodiadau
- os bydd digwyddiad neu ymyriad, gellir oedi asesiadau, eu hailddechrau neu eu canslo ar wefan yr asesiadau.

Trefniadau mynediad

Gweler Atodiad 6 am y trefniadau mynediad ar gyfer yr asesiadau personol.

Ar ôl yr asesiad

Mae adborth ar ddysgwyr ar gael i'r aelodau hynny o staff sydd â swyddogaethau 'Gweinyddu' neu 'Hwyluso a dadansoddi' ddiwrnod ar ôl i'r asesiadau gael eu sefyll. Dylai'r aelodau hynny o staff fewngofnodi i Hwb a gwefan yr asesiadau er mwyn cael yr adborth. Mae'n rhaid i'r adborth ar ddysgwyr gael ei ryddhau gan yr aelod o staff er mwyn i'r dysgwyr eu gweld. Unwaith y bydd yr adborth ar ddysgwyr yn cael ei ryddhau, bydd y dysgwyr yn gallu ei weld drwy Hwb.

Mae adroddiadau ar ddysgwyr ar gael hefyd ar wefan yr asesiadau sy'n cynnwys sgoriau safonedig ar sail oedran ar gyfer dysgwyr a gwybodaeth am y cynnydd.

Mae nifer o adroddiadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr, sy'n crynhoi perfformiad y grŵp cyfan, hefyd ar gael at ddefnydd staff. Ceir rhagor o wybodaeth am yr adroddiadau sydd ar gael a sut i'w defnyddio ar wefan yr asesiadau.

Atodiad 3: Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) – canllawiau gweinyddu

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â gofynion penodol gweinyddu'r Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol).

Strwythur yr asesiadau

Fel yr eglurwyd yn Atodiad 2, mae pob Aseiad Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) wedi'u teilwra yn ôl ymatebion y dysgwr. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn cyntaf mewn asesiad wedi'i ddewis i fod yn briodol i ddysgwr yn ei flwyddyn cwricwlwm bresennol, ond gall yr athro ddadwneud hynny lle y bo angen, os yw dysgwr yn gweithio ar lefel dipyn yn is na'i flwyddyn cwricwlwm. Dewisir cwestiynau dilynol o'r gronfa o gwestiynau fel y disgrifir yn Atodiad 2.

Er y bydd dysgwyr yn gweithio wrth eu pwysau, bydd yr asesiad yn cymryd tua 30 munud fel arfer.

Asesiadau ymgysfarwyddo

Darperir asesiadau ymgysfarwyddo er mwyn i athrawon eu defnyddio gyda dysgwyr cyn iddynt sefyll y prawf.

Mae pob un yn cynnwys wyth cwestiwn, sy'n cynnwys enghreifftiau o bob un o'r mathau o gwestiynau a ddefnyddir yn yr asesiadau personol. Efallai na fydd rhai dysgwyr yn gyfarwydd â rhai o'r mathau o gwestiynau neu efallai nad ydynt wedi cwblhau asesiadau ar gyfrifiadur. Felly, mae'n **bwysig iawn** eich bod yn treulio amser yn helpu dysgwyr i ddod yn gyfarwydd â defnyddio'r deunyddiau hyn fel y bydd yr asesiad, pan fyddant yn ei sefyll, yn rhoi'r wybodaeth orau bosibl am eu sgiliau.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 6, argymhellir eich bod yn **darllen y cwestiynau ymgysfarwyddo yn uchel** a gweithio drwy bob cwestiwn, gan wneud yn siŵr bod dysgwyr yn deall sut i gwblhau pob cwestiwn.

Ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 7 i 9, nid oes rhaid i chi ddarllen y cwestiynau yn uchel ond mae'n rhaid i chi sicrhau bod dysgwyr yn deall sut i gwblhau pob un o'r mathau gwahanol o gwestiynau a dylech drafod yr ateb mwyaf priodol i bob un ohonynt.

Mae modd defnyddio'r asesiadau ymgysfarwyddo ar unrhyw adeg. Dylent gael eu cynnal ychydig cyn asesiad personol (ond nid yn yr un wers o reidrwydd oherwydd cyfyngiadau amser a rhag ofn bod dysgwyr yn blino).

Trefnu asesiadau

Wrth drefnu asesiad i ddysgwyr, gall aelodau o staff ddewis p'un a fydd yr asesiad yn cael ei sefyll yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Amseriadau

Mae'r asesiadau yn cymryd tua 30 munud ar gyfartaledd ac fel arfer maent yn amrywio rhwng 20 a 40 munud.

Hwyluso asesiad personol

Cyn i'r asesiad ddechrau, dylai aelodau o staff atgoffa dysgwyr o nodweddion allweddol yr Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) – gweler tudalen 34 – a'u hatgoffa o'r canlynol:

- Os bydd angen cymorth ar ddysgwr i ddarllen cwestiwn, dylai godi ei law a gofyn i athro neu aelod o staff (sy'n gallu darllen y cwestiwn ond na ddylai helpu gyda'r cynnwys rhifyddol).
- Os bydd dysgwyr am weld y cwestiwn yn yr iaith amgen (Cymraeg/Saesneg) dylent glicio ar yr eicon ar waelod y sgrin.
- Mae dysgwyr yn deall eu bod yn gallu defnyddio papur a phen ysgrifennu neu bensil i gyfrifo'n fras, ond bod yn rhaid iddynt deipio eu hateb ar y sgrin.
- **Nid yw hyd yr asesiad yn adlewyrchu gallu'r dysgwr a dylai dysgwyr weithio wrth eu pwysau eu hunain.** Bydd yr asesiadau yn cymryd tua 30 munud, ond bydd hyn yn amrywio (maent yn para rhwng 20 munud a 40 munud fel arfer, yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae'r dysgwr yn gweithio a faint o gwestiynau y mae'n eu cael).

Yn ystod yr Aseidiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol), dylai'r athro neu aelod o staff edrych i weld:

- **nad yw cyfrifianellau nac offer eraill yn cael eu defnyddio**
- bod dysgwyr yn cael cymorth i ddarllen cynnwys cwestiwn os oes angen, ond nad ydynt yn cael cymorth gyda chyfrifo neu ddull.

Swyddogaeth iaith amgen

Wrth drefnu asesiad i ddysgwyr, gall aelodau o staff osod yr iaith y caiff yr asesiad ei sefyll ynddi: Cymraeg neu Saesneg. Yn y naill achos neu'r llall, bydd fersiwn iaith amgen y cwestiwn ar gael fel ffenestr naid ar unrhyw adeg. Drwy glicio ar yr eicon ar waelod y sgrin bydd dysgwyr yn gallu gweld cynnwys yr asesiad yn yr iaith arall. Arddangosir y fersiwn iaith amgen fel delwedd ac ni all y dysgwr ateb cwestiwn yn yr iaith amgen.

Ymateb i gwestiynau

Gellir darllen cwestiynau'r asesiad yn uchel i ddysgwyr os bydd angen. Ni ddylid rhoi unrhyw gymorth gyda chynnwys rhifyddol y cwestiynau.

Dylech ateb cwestiynau fel 'Ai dyna'r un cywir?' drwy ddweud 'Dewisa'r un cywir yn dy farn di'.

Atodiad 4: Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol – canllawiau gweinyddu

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â gofynion penodol gweinyddu'r Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol.

Strwythur yr aseidiadau

Fel yr eglurwyd yn Atodiad 2, mae pob Aseiad Personol Darllen Cenedlaethol wedi'u teilwra yn ôl ymatebion y dysgwr. Ar ddechrau'r aseiad bydd y dysgwr yn derbyn naill ai cwestiwn sy'n ymwneud â chwblhau brawddeg neu destun byr sydd â thri chwestiwn cysylltiedig. Bydd y cwestiynau cychwynnol wedi'u dewis i fod yn briodol i ddysgwyr yn y flwyddyn cwricwlwm honno, ond gall yr athro ddadwneud hynny lle y bo angen, os yw dysgwr yn gweithio ar lefel dipyn yn is na'i flwyddyn cwricwlwm. Dewisir testunau a chwestiynau dilynol o'r gronfa yn seiliedig ar atebion y dysgwr i gwestiynau blaenorol. Er enghraifft, os bydd testun a thri chwestiwn cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i ddysgwr, bydd y system yn gwerthuso'r ymatebion y maent wedi'u rhoi i'r cwestiynau ac wedyn yn dewis testun a grŵp o gwestiynau mwy heriol neu destun a grŵp o gwestiynau haws fel sy'n briodol.

Er y bydd dysgwyr yn gweithio wrth eu pwysau, bydd yr aseiad yn cymryd tua 35 i 45 munud fel arfer.

Aseidiadau ymgyfarwyddo

Darperir aseidiadau ymgyfarwyddo er mwyn i athrawon eu defnyddio gyda dysgwyr cyn iddynt sefyll yr aseiad. Mae tri aseiad ar gael: cynradd Blynyddoedd 2–3, cynradd Blynyddoedd 4–6, ac uwchradd Blynyddoedd 7–9.

Mae pob aseiad ymgyfarwyddo'n cynnwys un testun darllen ac amrywiaeth o gwestiynau, sy'n cynnwys enghreifftiau o bob un o'r mathau o gwestiynau a ddefnyddir yn yr aseidiadau personol. Bydd cwestiwn ar gwblhau brawddeg yn cael ei gynnwys yn yr aseidiadau personol ar gyfer Blynyddoedd 2–3 a Blynyddoedd 4–6.

Mae'n **bwysig iawn** eich bod yn treulio amser yn helpu dysgwyr i ddod yn gyfarwydd â'r aseidiadau hyn, fel y bydd yr aseiad, pan fyddant yn ei sefyll, yn rhoi'r wybodaeth orau bosibl am eu sgiliau.

Mae modd defnyddio'r aseidiadau ymgyfarwyddo ar unrhyw adeg. Dylent gael eu cynnal ychydig cyn aseiad personol (ond nid yn yr un wers o reidrwydd oherwydd cyfyngiadau amser a rhag ofn bod dysgwyr yn blino).

Caiff y cwestiynau eu cyflwyno mewn ffordd benodol i alluogi staff i egluro'r aseiad ymgyfarwyddo i'r dosbarth cyfan, e.e. drwy ddarllen y testun a'r cwestiynau gyda'i gilydd, a thrafod yr ateb a sut i ymateb.

Trefnu aseidiadau

Wrth drefnu aseiad i ddysgwyr, yr aelodau o staff sy'n dewis yr Aseidiadau Personol Darllen Cenedlaethol Cymraeg neu Saesneg, fel sy'n briodol.

Dim ond yr Asegiadau Darllen Cenedlaethol yn Gymraeg y mae'n ofynnol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3 sy'n dilyn y Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg ei sefyll, gyda'r Asegiadau Darllen Cenedlaethol yn Saesneg ar gael fel opsiwn ychwanegol i'r rhai ym Mlwyddyn 3 yn unig. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 4 i 9 sy'n dilyn y Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg sefyll yr Asegiadau Darllen Cenedlaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg .

Amseriadau

Mae'r asegiadau yn cymryd tua 40 munud ar gyfartaledd ac fel arfer maent yn amrywio rhwng 35 a 45 munud.

Hwyluso asegiad personol

Cyn i'r asegiad ddechrau, dylai aelodau o staff atgoffa dysgwyr o **nodweddion allweddol** yr Asegiadau Personol Darllen Cenedlaethol.

- Efallai y byddent yn cael cwestiynau sy'n gofyn iddynt gwblhau brawddegau a gallai'r rheini fod ar ddechrau'r asegiad.
- Pan fydd ganddynt destun i'w ddarllen, dylent ei ddarllen yn ofalus cyn symud i'r cwestiynau.
- Bydd cyfarwyddyd i ddefnyddio'r botwm 'Nesaf' i ateb y cwestiynau ar ôl i'r dysgwyr ddarllen y testun.
- Bydd y cwestiynau (ac eithrio'r cwestiynau sy'n ymwneud â chwblhau brawddegau) yn ymddangos â botwm y gellir ei ddefnyddio i agor y testun darllen, fel bod dysgwyr yn gallu cyfeirio nôl iddo.
- Gall dysgwyr ddethol y botwm 'X' i gau'r testun darllen.
- Os bydd y testun yn cuddio cwestiwn, gellir llusgo'r destun i un ochr i weld y cwestiwn eto.
- Ni ellir darllen testunau na chwestiynau i ddysgwyr, gan mai asegiad yw hwn o'u sgiliau darllen.
- **Nid yw hyd yr asegiad yn adlewyrchu gallu'r dysgwr a dylai dysgwyr weithio wrth eu pwysau eu hunain.** Bydd yr asegiadau yn cymryd tua 40 munud, ond bydd hynny'n amrywio, yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae'r dysgwr yn gweithio a faint o gwestiynau y mae'n eu cael.

Atodiad 5: Trefniadau mynediad ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)

Mae'r Profion rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) wedi'u cynllunio i gefnogi addysgeg a phrosesau gwella ysgolion, gan gynhyrchu data y gall athrawon eu defnyddio i gael darlun cywir o ddysgwyr o ran ei sgiliau a'i allu o'i gymharu â dysgwyr eraill.

Mae'r profion, sy'n cael eu sefyll gan ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 i 9 ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, wedi cael eu cynllunio gan ystyried mynediad dysgwyr. Disgwylir y bydd bron bob dysgwr yn gallu eu sefyll heb drefniadau arbennig. Bydd gan ysgolion rywfaint o ddisgresiwn o ran sut maent yn gweinyddu'r profion, a cheir rhagor o ganllawiau yn Atodiad 1.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall rhai dysgwyr wynebu heriau wrth sefyll y profion, ac y bydd yn amhosibl i rai dysgwyr eu sefyll. Diben y canllawiau hyn yw helpu penaethiaid ac ysgolion o ran:

- deall pa drefniadau y gallant eu gwneud i helpu eu dysgwyr i sefyll y profion
- deall yr amrywiaeth o bapurau prawf wedi'u haddasu sydd ar gael
- nodi'r dysgwyr hynny na fyddant yn gallu sefyll y profion, am amrywiaeth o resymau, hyd yn oed pan ddefnyddir yr holl addasiadau sydd ar gael, a llunio barn yn eu cylch.

Drwy ystyried yn briodol y ffactorau a amlinellir yn y canllawiau hyn, bydd ysgolion yn gallu helpu cynifer o'u dysgwyr â phosibl i sefyll y profion a gwneud penderfyniadau priodol, ar sail tystiolaeth, mewn perthynas â'r rhai hynny na allant sefyll y profion.

Trefniadau mynediad

Dysgwyr y gall fod angen trefniadau mynediad arnynt

Bwriedir i'r profion asesu gallu dysgwyr mewn ffordd deg a chymaradwy, gyda chynifer o ddysgwyr â phosibl yn cael cyfle i'w sefyll. Mae'r profion wedi'u cynllunio fel y gall llawer o ddysgwyr ag AAA neu anabledau eu sefyll yn eu fformat safonol.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen i weinyddwyr addasu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer rhai dysgwyr fel y gallant ddangos yn llawn yr hyn a wyddant a'r hyn y gallant ei wneud. Mae'r trefniadau mynediad yn **addasiadau sy'n seiliedig yn bennaf ar yr hyn sy'n cael ei wneud fel arfer yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer anghenion penodol**. Ni ddylent roi mantais i ddysgwyr unigol na'u rhoi o dan anfantais, na newid gofynion yr asesiad. Dylai'r rhai sy'n gweinyddu'r profion benderfynu p'un a oes unrhyw drefniadau mynediad yn briodol drwy ystyried yr asesiad o anghenion dysgwyr unigol yn ofalus.

Mae gan ddysgwyr sy'n anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, ac sydd o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â dysgwr nad yw'n anabl, yr hawl i gael addasiad rhesymol i ddileu neu, os nad yw hynny'n bosibl, leihau'r anfantais.

Er symlrwydd, yn y canllawiau hyn defnyddir y term ‘trefniadau mynediad’ ar gyfer trefniadau i ddysgwyr heb anableddau ac addasiadau rhesymol i ddysgwyr ag anableddau.

Gall trefniadau mynediad fod yn briodol i ddysgwyr:

- sydd wedi cael datganiad AAA fel y'i disgrifir yn *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002)
- y darperir ar eu cyfer yn yr ysgol gan ddefnyddio Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy **ac** y mae eu hanhawster neu eu hanabledd dysgu yn effeithio'n sylweddol ar fynediad at y profion.
- sydd ag anabledd nad yw'n gyfystyr ag AAA ond sy'n gofyn am drefniadau mynediad amgen
- na allant sefyll prawf na gweithio ar brawf am gyfnod estynedig oherwydd anabledd neu anhawster ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol
- y mae Cymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac nad ydynt yn rhugl iawn yn Gymraeg/Saesneg.

Addasiadau i'r profion

Oherwydd yr amrywiaeth eang o anghenion ac amgylchiadau dysgwyr, nid oes modd rhoi rheolau hollgynhwysfawr ynglŷn â defnyddio addasiadau. Dylai'r rhai sy'n gweinyddu'r profion ddefnyddio eu gwybodaeth am ddysgwyr unigol wrth benderfynu pa addasiadau i'w gwneud, gan gofio natur a lefel y cymorth y mae'r dysgwyr hyn yn ei gael fel arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r llawlyfr a'r canllawiau ar y prawf a ddarperir ar gyfer y rhai sy'n archebu papurau wedi'u haddasu yn rhoi cyngor penodol ar gyfer anghenion penodol, e.e. anghenion oherwydd nam ar y golwg neu nam ar y clyw.

Ymhlith yr addasiadau a ganiateir mae llungopïo'r profion ar bapur lliw, neu chwyddo unrhyw fformat ar y profion i faint penodol. Fodd bynnag, dylai ysgolion fod yn ofalus wrth addasu papurau lle cyfeirir at dudalennau eraill yn y profion, neu lle mae diagramau wedi cael eu lluniadu wrth raddfa. Gellir hefyd ddefnyddio troshaenau lliw neu lensys hidlo lliw yn achos dysgwyr sydd â dyslecsia os mai dyna'r hyn a ddefnyddir fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ddylai'r sgrïptiau na'r cyflwyniadau sleidiau i athrawon a ddarperir ar y cyd â'r deunyddiau ysgogi yn y prif Brofion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) gael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio deunyddiau prawf print bras wedi'u haddasu neu ddeunyddiau prawf Braille wedi'u haddasu. Mae sgrïptiau a deunyddiau ysgogi i'r dysgwyr hyn wedi'u cynnwys yn y *Nodiadau i athrawon* a ddarperir ar y cyd â'r profion wedi'u haddasu.

Ysgrifenyddion

Gellir defnyddio ysgrifenyddion ar gyfer unrhyw brawf i ddysgwyr a fyddai fel arfer yn cael y math hwn o gymorth yn yr ystafell ddosbarth neu y mae angen ysgrifennydd arnynt o ganlyniad i nam diweddar. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid defnyddio ysgrifennydd i roi cymorth i ddysgwr:

- lle mae'r dysgwr yn defnyddio Braille

- Lle na all y dysgwr ysgrifennu eu hatebion yn gorfforol ac na all ddefnyddio prosesydd geiriau
- Lle mae gan y dysgwr nam echddygol neu lle mae ysgrifennu yn rhywbeth anghysurus yn gorfforol neu'n feddyliol
- Lle mae'r dysgwr yn ysgrifennu'n araf dros ben.

Lle defnyddir ysgrifennydd, dylid rhoi nodyn i'r perwyl hwn ar bapur y dysgwr.

Darllenwyr

Yn y **Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)**, gellir defnyddio darllenwyr yn unol â'r canllawiau ar weinyddu'r prawf a ddarperir ar y cyd â'r profion.

Cymhorthion mecanyddol a/neu dechnolegol

Gall dysgwyr ddefnyddio eu cymhorthion mecanyddol neu dechnolegol yn y profion os cânt eu defnyddio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth, ac ar yr amod nad yw'r rhain yn lleihau lefel y gofynion yn y profion. Ni chaniateir i ddysgwyr ddefnyddio cymhorthion cyfrif yn y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Amser ychwanegol

Gall rhai dysgwyr gael amser ychwanegol lle mae hyn o ganlyniad i'r papurau wedi'u haddasu y bwriedir iddynt eu defnyddio neu'r hyn sy'n digwydd fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Gall dysgwyr sy'n defnyddio fersiynau Braille neu brint bras o'r profion gael hyd at 100 y cant o amser ychwanegol, yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

Gall dysgwyr nad ydynt yn defnyddio'r fersiynau Braille na phrint bras o'r profion gael yr amser ychwanegol a bennir ar gyfer eu gwaith arferol yn yr ystafell ddosbarth, hyd at 100 y cant. Er enghraifft, os bydd dysgwr yn cael 25 y cant o amser ychwanegol fel arfer i gwblhau ei waith yn y dosbarth, yna gall gael 25 y cant o amser ychwanegol yn y prawf. Byddai hyn yn cynnwys dysgwyr megis y rhai sy'n cael anawsterau iaith neu sydd â nam ar y clyw sy'n arwain at yr angen am amser prosesu ychwanegol. Dylai fod gan ysgolion dystiolaeth y caniateir i ddysgwyr gael amser ychwanegol fel arfer er mwyn caniatáu hynny yn y profion. **Ni chaniateir i unrhyw ddysgwyr eraill gael amser ychwanegol ar gyfer y profion.**

Rhannu profion yn adrannau a rhoi seibiannau gorffwys lle mae dysgwyr yn cael anhawster canolbwyntio neu'n blino

Efallai y bydd gan rai dysgwyr AAA sy'n golygu eu bod yn cael anhawster canolbwyntio neu sy'n peri iddynt flino oherwydd problem iechyd neu anhawster i brosesu gwybodaeth, e.e. dysgwyr sydd â nam ar y clyw. Mewn achosion o'r fath, gellir rhannu'r profion yn adrannau cydlynol ('wedi'u talpio') fel y byddent i ddysgwyr iau, neu gellir stopio'r cloc er mwyn caniatáu seibiannau gorffwys. Os oes angen, gellir gwneud hyn ar y cyd â rhoi 'amser ychwanegol' fel y'i trafodir yn flaenorol.

Defnyddio ysgogwyr ar gyfer dysgwyr sydd â heriau difrifol o ran canolbwyntio

Gall dysgwyr sydd â heriau difrifol o ran canolbwyntio gael cymorth ysgogwr lle y cânt eu defnyddio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth. Lle defnyddir ysgogwr, dylid

cynnal y prawf mewn ystafell ar wahân. Gall yr ysgogwr ond tynnu sylw'r dysgwr nôl at y prawf; ni ellir rhoi cymorth nac arweiniad ynghlân â sut i sefyll y prawf.

Defnyddio ystafelloedd ar wahân ar gyfer cymorth un i un

Dylid defnyddio ystafelloedd ar wahân i ddysgwyr y mae eu AAA yn cyfiawnhau hyn, a hefyd mewn achosion lle mae risg y bydd natur y cymorth a roddir i ddysgwr yn amharu ar ddysgwyr eraill sy'n sefyll y profion neu'n rhoi mantais iddynt.

Ystyriaethau amgylcheddol ac ystyriaethau cyflwyno sy'n berthnasol i ddysgwyr ag AAA

Lle mae ysgolion yn gweinyddu'r profion i ddysgwyr ag AAA, yn enwedig y rhai sydd â nam ar y clyw neu sydd ar y sbectrwm awtistig, mae'n bwysig iawn bod y profion yn cael eu gweinyddu mewn ystafell lle mae'r acwstig yn dda, er mwyn eu helpu i ddeall y cyfarwyddiadau. Efallai y bydd angen amser prosesu ychwanegol ar ddysgwyr o'r fath hefyd er mwyn deall a chofio'r cyfarwyddiadau hyn; dylai gweinyddwyr y prawf gadarnhau eu bod wedi deall y gofynion cyn cynnal y profion.

Ystyriaethau ychwanegol i ddysgwyr sy'n cael cymorth iaith arwyddion

Gall dysgwyr sy'n defnyddio iaith arwyddion er mwyn astudio'r cwricwlwm gael cymorth iaith arwyddion yn y profion. Mewn Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), gall y prawf wedi'i gwblhau gael ei arwyddo/ei gyfleu i'r dysgwr. Gall y dysgwr arwyddo ei ymatebion i'w trawsgrifio gan y cyfathrebwr. Ni ddylai ddysgwyr fod mewn sefyllfa i weld ymatebion wedi'u harwyddo dysgwyr eraill.

Cymorth i ddysgwyr sy'n cael anhawster cymryd rhan yn y profion neu sy'n teimlo'n ofidus

Mae'n arfer da caniatáu i ddysgwyr sy'n debygol o orffen y profion yn gynnar ddod â llyfr neu ddarn o waith addas i lenwi eu hamser tra bod gweddill y dosbarth neu'r grŵp prawf yn gorffen sesiwn y prawf.

Os oes dysgwr wedi cael ei gofrestru ar gyfer y profion ac, er ei fod wedi cael ei baratoi a'i gefnogi'n briodol, a'i fod yn dechrau mynd yn ofidus, yna dylai'r ymarferwyr sy'n gweinyddu'r profion ei gefnogi yn yr un ffordd ag y byddent yn ei wneud pe bai wedi cynhyrfu ynghylch darn o waith yn yr ystafell ddosbarth. Gallai hyn gynnwys caniatáu iddo aildechrau sefyll y prawf yn ddiweddarach yn ystod cyfnod y prawf, os yw hynny'n briodol.

Iaith y profion ac iaith ymateb dysgwyr

O ran y **Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)**, mae'r profion wedi'u cynllunio i brofi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth rifyddol dysgwyr. Gall athrawon a/neu staff cymorth gyfieithu'r profion neu ymatebion dysgwyr.

Cyfieithu papurau'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)

Gall ysgolion gyfieithu papurau cyfan y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) i ddysgwyr sy'n dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol a dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac i'r rhai y mae eu gwaith yn cael ei gyfieithu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod y defnydd o gyfieithiadau ysgrifenedig neu lafar i ddysgwyr sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol fod yn rhywbeth sy'n digwydd fel arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n rhaid bod

ysgolion yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniad i roi cyfieithiad, drwy gyfeirio at dystiolaeth er mwyn dangos bod adnoddau'n cael eu neilltuo'n rheolaidd i roi'r cymorth hwn. Os rhoddir cyfieithiadau ar lafar, mae'n rhaid dilyn y canllawiau ar weinyddu profion. Penaethiaid sy'n gyfrifol am wneud trefniadau i sicrhau ansawdd unrhyw gyfieithiadau. Nid argymhellir defnyddio gwasanaethau cyfieithu am ddim ar y we.

Dylai'r rhai sy'n gweinyddu'r profion hefyd gofio na fydd dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol, neu ddysgwyr sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain neu ddull cyfathrebu arall â chymorth arwyddo, yn gyfarwydd o bosibl â holl eirfa'r pwnc neu dermau technegol yn eu dewis iaith.

Cymhorthion mecanyddol a thechnolegol a chymorth arall i ddysgwyr sy'n dysgu Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol

Gall dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol ddefnyddio geiriaduron a chyfieithwyr electronig, lle mae hyn yn digwydd fel arfer yn yr ystafell ddosbarth, mewn perthynas â'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Cofrestru dysgwyr ar gyfer profion heblaw'r rhai ar gyfer eu grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol

Efallai y bydd rhai dysgwyr sydd ag AAA sylweddol a fyddai'n cael eu datgymhwyso rhag y profion ar gyfer eu grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol yn gallu cofrestru rhywfaint o gyrhaeddiad yn erbyn y profion os byddant yn sefyll y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer y grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol sy'n cyfateb orau i'w cyrhaeddiad yn erbyn y disgwyliadau blynyddol a nodir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Gall y profion ddarparu gwybodaeth ddiagnostig werthfawr; fodd bynnag, ni ellir cynnwys canlyniadau profion i ddysgwyr sy'n sefyll prawf 'blwyddyn wahanol' yn yr wybodaeth a gyflwynir yn ffurfiol gan yr ysgol fel rhan o broses Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru a dylid ei farcio'n 'D' (wedi'i ddatgymhwyso) at y diben hwn.

Bydd ysgolion yn gallu cyfrifo mesur cynnydd safonol ar gyfer y dysgwyr hyn drwy ddefnyddio'r tablau parod a gyhoeddir ar Hwb er mwyn rhoi adroddiad i rieni/gofalwyr. Dylai penderfyniad o'r fath gael ei wneud yng ngoleuni'r cyngor a roddir gan yr awdurdod lleol perthnasol a'i gofnodi cyn i becynnau'r profion gael eu dosbarthu.

Mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n gweithio uwchlaw lefel eu blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol sefyll y prawf ar gyfer eu grŵp blwyddyn cywir er mwyn i ddata cywir gael eu cyflwyno ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw. Ni chaniateir i ddysgwyr sefyll y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol uwch.

Caniateir i ysgolion weinyddu profion 'blwyddyn wahanol' i ddysgwyr penodol at ddibenion ffurfiannol; dim ond y tu allan i gylch y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) y gellir gwneud hyn ac ni ellir cynnwys y canlyniadau gyda'r data a gyflwynir gan ysgolion fel rhan o broses Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru.

Profion wedi'u haddasu

Beth yw'r profion wedi'u haddasu?

Mae profion wedi'u haddasu ar gael i helpu dysgwyr sydd â nam ar y golwg neu ddysgwyr sydd **fel arfer yn defnyddio print bras fel rhan o'r hyn sy'n digwydd fel arfer yn yr ystafell ddosbarth**. Ceir canllawiau hefyd i helpu'r rhai sy'n gweinyddu'r profion wedi'u haddasu i ddysgwyr sydd â nam ar y clyw neu sy'n defnyddio iaith arwyddion.

Mae'r profion wedi'u haddasu canlynol ar gael:

- **Braille** – Braille gradd 2. Gellir darparu diagramau naill ai ar ffurf thermoffurf ar blastig neu blastig ystwyth neu ar bapur chwyddo
- **profion print bras wedi'u haddasu** – maint B4, ffont 18 pwynt, mewn du a gwyn
- **print chwyddedig** – maint B4, ffont 14 pwynt, mewn du a gwyn.

Dylai ysgolion nodi y gall cwestiynau yn y papurau wedi'u haddasu fod yn wahanol i'r rhai yn y papurau safonol.

Beth yw papurau prawf print bras wedi'u haddasu a pha ddysgwyr y bydd eu hangen arnynt?

Efallai y bydd dysgwyr sydd â nam difrifol ar y golwg neu sydd ag anghenion sylweddol eraill, megis syndrom Asperger, awtistiaeth neu ddyslecsia, yn cael budd o ddefnyddio fersiynau print bras wedi'u haddasu o'r profion. Fodd bynnag, dim ond os yw dysgwyr yn gyfarwydd â deunyddiau wedi'u haddasu fel rhan o'r hyn sy'n digwydd fel arfer yn yr ystafell ddosbarth y bydd fformat print bras wedi'i addasu yn addas. Defnyddir maint ffont 18 pwynt, mae'r diagramau wedi'u symleiddio neu wedi'u hepgor, ac maent ond wedi'u hargraffu mewn du a gwyn ar bapur B4 ac wedi'i rhwymo â gwifren grib. Mae papur B4 yn mesur 364mm gan 257mm. Ar gyfer Blynnyddoedd 2 a 3, cynhyrchir papurau print bras wedi'u haddasu ar bapur A4.

Beth yw papurau prawf print chwyddedig a pha ddysgwyr y bydd eu hangen arnynt?

Efallai y bydd angen papurau prawf print chwyddedig ar ddysgwyr sydd â nam ar y golwg neu fathau eraill o AAA, os mai dyna'r ffordd y cyflwynir eu deunyddiau yn yr ystafell ddosbarth fel arfer. Mae papurau prawf print chwyddedig yn gopi chwyddedig union o bapurau prawf safonol a bwriedir iddynt ddangos y profion fel pe baent wedi'u chwyddo ar lungopiwr. Defnyddir maint ffont tua 14 pwynt, ac maent wedi'u hargraffu mewn du a gwyn ar bapur B4 fel arfer, wedi'u rhwymo â gwifren grib. Mae papur B4 yn mesur 364mm gan 257mm. O dan amgylchiadau eithriadol, gall rhai deunyddiau prawf print chwyddedig ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) gael eu cynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol mewn lliw, yn dibynnu ar gynnwys y prawf.

Mae profion print chwyddedig ar gael i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 4 i 9.

Am resymau sy'n ymwneud â gallu dysgwyr i ymdopi â'r papurau, dylai dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3 y mae angen profion print chwyddedig arnynt ddefnyddio'r profion print bras wedi'u haddasu.

Pam mae fersiynau print chwyddedig mewn du a gwyn fel arfer yn hytrach nag mewn lliw?

Er y gall nifer sylweddol o ddysgwyr sydd â nam ar y golwg ymdopi â phrint du ar bapur gwyn, ni all pob un ymdopi â lliw.

Caiff y profion eu cynhyrchu mewn du a gwyn fel arfer er mwyn galluogi cynifer o ddysgwyr â phosibl i sefyll y profion yn annibynnol.

Caiff rhai llyfrynnau print chwyddedig i ddysgwyr ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) eu cynhyrchu mewn lliw llawn. Gall hyn achosi anawsterau mynediad i unrhyw ddysgwr sydd fel arfer yn defnyddio deunyddiau a gynhyrchir mewn du a gwyn yn unig. Dylai ysgolion gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion er mwyn trafod a fyddai papurau prawf print bras wedi'u haddasu yn fwy addas at anghenion dysgwyr o'r fath.

Pam mae profion print chwyddedig a phroffion print bras wedi'u haddasu yn cael eu hargraffu ar bapur B4?

Mae'n rhaid i bapurau prawf print chwyddedig fod ar bapur sy'n fwy nag A4 am eu bod yn ffurf chwyddedig ar y papurau safonol. Yn yr un modd, mae profion print bras wedi'u haddasu ar bapur mwy o faint er mwyn cael lle ar gyfer y diagramau wedi'u haddasu a ffont mwy o faint. Am resymau sy'n ymwneud â gallu dysgwyr i ymdopi â'r papurau, nid yw'n beth dymunol defnyddio papur A3, felly defnyddir B4 am ei fod yn llai nag A3 ond yn fwy nag A4.

A allwn archebu dwy fersiwn wahanol o'r profion i un dysgwr?

Gallwch archebu dwy fersiwn o'r un prawf i un dysgwr os yw ei ddeunydd arferol yn yr ystafell ddosbarth yn gymysgedd o fformatau. Fodd bynnag, mae angen cymryd gofal mawr, gan ei bod yn bosibl bod y deunyddiau wedi cael eu haddasu'n wahanol ym mhob fformat. Dylai gweinyddwyr y prawf nodi ei bod yn bosibl bod cynllun marcio un fersiwn ychydig yn wahanol i'r llall. Felly, bydd angen cymryd gofal wrth weinyddu a marcio'r profion lle mae dysgwr wedi defnyddio dau fformat gwahanol. Cyn y profion, dylech edrych ar y ddwy fersiwn a phenderfynu pa fersiwn fyddai'n adlewyrchu'r arfer yn yr ystafell ddosbarth orau. Ni ddylech geisio cyfuno'r fersiynau gwahanol o gwestiynau unigol, e.e. cwestiwn safonol â chwestiwn print bras wedi'i addasu neu gwestiwn Braille â chwestiwn print bas wedi'i addasu. Yn y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), mae'n bwysig bod yr un fersiwn yn cael ei defnyddio ar gyfer sgrïpt yr athro a llyfryn y dysgwr. Mae'n bwysig nodi na chaniateir defnyddio'r sgrïptiau na'r cyflwyniadau sleidiau i athrawon a ddarperir ar y cyd â'r deunyddiau ysgogi yn y prif Brofion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) i ddysgwyr sy'n defnyddio deunyddiau prawf print bras neu Braille wedi'u haddasu. Caiff sgrïptiau a deunyddiau ysgogi wedi'u haddasu eu cynnwys yn y *Nodiadau i athrawon* a ddarperir gyda'r profion wedi'u haddasu.

Pryd y gallwn agor y deunyddiau wedi'u haddasu?

Efallai y bydd angen i athro weld deunyddiau'r prawf wedi'u haddasu er mwyn ystyried a oes angen addasiadau i wneud eitemau penodol o'r prawf yn addas i

ddysgwyr unigol. Gall addasiadau o'r fath gynnwys troi Braille yn Braille gradd 1, neu chwyddo papurau prawf ymhellach, neu eu copio ar bapur lliw. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid sicrhau cyfrinachedd a diogelwch deunyddiau'r prawf bob amser.

Am y rhesymau hyn, gellir agor deunyddiau prawf wedi'u haddasu ar ôl eu derbyn neu hyd at bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y prawf.

Faint o amser ychwanegol y gellir ei roi i ddysgwr sy'n defnyddio profion wedi'u haddasu?

Mae'r un trefniadau sy'n gymwys i ddysgwyr sy'n sefyll y profion safonol yn gymwys i'r rhai sy'n sefyll y profion wedi'u haddasu. Gall dysgwyr sy'n defnyddio fersiynau Braille neu brint bras o'r profion gael hyd at 100 y cant o amser ychwanegol, yn ôl disgrisiwn yr ysgol. Gall dysgwyr sy'n defnyddio'r fersiynau print chwyddedig o'r profion gael yr amser ychwanegol a bennir ar gyfer eu gwaith arferol yn yr ystafell ddosbarth, hyd at 100 y cant. Er enghraifft, os bydd dysgwr yn cael 25 y cant o amser ychwanegol fel arfer i gwblhau ei waith yn y dosbarth, yna gall gael 25 y cant o amser ychwanegol yn y prawf. Dylai fod gan ysgolion dystiolaeth bod dysgwyr yn cael amser ychwanegol fel arfer er mwyn caniatáu hyn yn y profion.

A yw'r profion ar gael ar bapur lliw i ddysgwyr sydd â dyslecsia, neu mewn fformatau eraill?

Dim ond mewn fersiynau Braille, print bras wedi'u haddasu neu brint chwyddedig y mae profion wedi'u haddasu ar gael. Mae'r fersiynau print bras wedi'u haddasu a phrint chwyddedig ond ar gael mewn print du ar bapur gwyn. Fel y nodir o dan 'Trefniadau mynediad' ar dudalen 49, os oes gan ysgolion ddysgwyr y mae angen y profion mewn fformatau eraill arnynt, gall ysgolion addasu'r profion yn unol ag anghenion unigol eu dysgwyr. Gall hyn olygu llungopi'r profion ar bapur lliw, neu chwyddo unrhyw fformat o'r prawf i faint penodol.

Gellir hefyd ddefnyddio troshaenau lliw neu lensys hidlo lliw yn achos dysgwyr sydd â dyslecsia os mai dyna'r hyn a ddefnyddir fel arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae rhai deunyddiau prawf safonol, megis llyfrynau dysgwyr ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), a rhai llyfrynau print chwyddedig i ddysgwyr ar gyfer y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), yn cael eu cynhyrchu mewn lliw llawn. Gall hyn achosi anawsterau i unrhyw ddysgwr sydd fel arfer yn defnyddio deunyddiau sydd wedi'u cynhyrchu mewn graddlwyd. Dylai ysgolion gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion er mwyn trafod a fyddai papurau prawf print bras wedi'u haddasu yn fwy addas at anghenion dysgwyr o'r fath.

A all yr ysgol wneud ei haddasiadau ei hun neu addasiadau pellach i'r profion?

Mewn achosion eithriadol, os nad yw'r profion wedi'u haddasu sydd ar gael yn diwallu anghenion dysgwr penodol, gall ysgolion addasu'r profion yn unol ag anghenion dysgwyr unigol.

Dylai ysgolion astudio'r *Nodiadau i athrawon* a ddarperir ar y cyd â'r profion wedi'u haddasu i gael canllawiau penodol ar addasu cwestiynau ymhellach. Gallant hefyd gysylltu â'r Llinell Gymorth Archebu Profion am gyngor. Fodd

bynag, dylai ysgolion fod yn ofalus iawn lle cyfeirir at dudalennau eraill yn y profion, neu lle mae diagramau wedi cael eu lluniadu wrth raddfa.

Mae'n hanfodol na ddylai unrhyw addasiadau a wneir newid cynnwys y cwestiwn neu, yn anfwriadol, roi mantais i'r dysgwr neu ei roi o dan anfantais. Mae'n hollbwysig na chaiff cynnwys cwestiynau ei newid fel rhan o addasiadau'r ysgol ei hun/addasiadau pellach.

Beth yw fformat y profion Braille?

Caiff y profion Braille eu cynhyrchu mewn Braille Saesneg Unedig wedi'i gontractio'n llawn neu/a Braille Cymraeg. Dylai'r fersiwn a ddewisir gyfateb i'r hyn a ddarperir fel arall yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer y dysgwr. Bydd y testun ar un ochr o'r dudalen ac yn foglynnog a defnyddir priflythrennau Braille. Os na fydd y fformat hwn yn addas ar gyfer dysgwr unigol, caiff ysgolion gynhyrchu'r profion mewn math arall o Braille sy'n diwallu anghenion unrhyw ddysgwr unigol.

Gall dysgwyr ddarllen mewn Braille ac ymateb mewn print, ac fel arall os mai dyna'r hyn sy'n digwydd fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Sut y byddaf yn archebu profion wedi'u haddasu?

Gallwch archebu pob math o brofion wedi'u haddasu drwy'r System Archebu Profion Cenedlaethol yn archebuprofion.profioncenedlaethol.cymru ar yr un pryd ag yr archebwch yr holl brofion eraill.

Cyfeiriwch at dudalen 5 o'r canllawiau hyn i gael rhagor o wybodaeth.

Caiff profion wedi'u haddasu eu dosbarthu i'r ysgol ar wahân.

Sut y byddaf yn marcio'r profion wedi'u haddasu?

Er mwyn marcio fersiynau Braille a fersiynau print bras wedi'u haddasu, defnyddiwch y cynllun marcio wedi'i addasu ochr yn ochr â'r cynllun marcio safonol. Mae'r cynllun marcio wedi'i addasu yn rhoi manylion ynglŷn â sut i farcio cwestiynau a addaswyd ac na ellir cymhwyso'r cynllun marcio safonol atynt mwyach. Dylid marcio pob cwestiwn arall yn unol â'r cynllun marcio safonol.

Atodiad 6: Addasiadau i asesiadau personol

Mae'r asesiadau wedi cael eu cynllunio gan gadw mynediad dysgwyr mewn cof; disgwylir y bydd bron bob dysgwr yn gallu eu sefyll heb drefniadau arbennig. Fodd bynnag, lle bydd angen fersiynau hygyrch mae'r asesiadau wedi cael eu llunio i ddiwallu'r amrywiaeth ehangaf posibl o anghenion mynediad, gan weithio gydag amrywiaeth eang o dechnolegau mynediad a ddefnyddir yn gyffredin a threfniadau mynediad arferol. Lle y bo modd, dylai dysgwyr gael cymorth i sefyll yr asesiadau yn yr un modd ag y maent yn cael cymorth i weithio ar gyfrifiadur yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd.

Trefniadau mynediad

Seibiannau gorffwys a'r amser a ganiateir

Nid oes gan yr asesiadau personol hyd penodedig na nifer penodedig o gwestiynau (ond mae uchafswm nifer o gwestiynau). Mae'r system asesu yn stopio pan fydd yr asesiad wedi gwneud penderfyniad dibynadwy ynglŷn â gallu'r dysgwr. Mae'r Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn para rhwng 20 a 40 munud fel arfer (yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae'r dysgwr yn gweithio) ac mae'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol tua 40 munud o hyd fel arfer.

Gellir rhoi seibiannau gorffwys i ddysgwyr o unrhyw oedran. Os credir y bydd angen seibiant ar ddysgwyr er mwyn iddynt berfformio hyd eithaf eu gallu, gellir gwneud hyn drwy oedi'r asesiad ar wefan yr asesiadau. Gall y dysgwr allgofnodi ac yna fewngofnodi eto er mwyn aildechrau'r asesiad ar y pwynt y gadawodd yr asesiad. Mae'n bwysig bod yr asesiad yn cael ei oedi yn ystod y seibiant hwn neu bydd y dysgwr o bosibl yn gallu cael mynediad ato o ddyfais arall. Mae'n rhaid i'r asesiad gael ei gwblhau ar yr un diwrnod ag y dechreuodd. Caiff unrhyw asesiad nas cwblhawyd ei gyflwyno'n awtomatig am 5p.m. ar y diwrnod y cafodd ei drefnu.

Nid oes gan asesiadau hyd penodedig, felly caiff dysgwyr gymaint o amser ag sydd ei angen arnynt i'w cwblhau; gall yr aelod o staff benderfynu faint o amser i'w roi i'r dysgwr gwblhau'r asesiad yn seiliedig ar ymarfer yr ystafell ddosbarth a lles y dysgwr. Dylai'r aelod o staff sy'n hwyluso'r asesiadau annog dysgwyr i symud ymlaen drwy'r cwestiynau, yn hytrach na threulio gormod o amser ar gwestiynau na allant eu hateb. Os oes angen, gellir stopio'r asesiad, ei ganslo a'i aildrefnu ar ddiwrnod arall.

Fersiynau chwyddedig

Mae'r asesiadau personol wedi cael eu cynllunio i weithio gyda'r offer chwyddo sydd ar gael mewn dyfeisiau i ddysgwyr (e.e. Windows Magnifier, neu ddefnyddio swyddogaeth chwyddo'r porwr). Dylai'r rhain gael eu defnyddio yn yr un ffordd ag y mae'r dysgwr yn eu defnyddio fel arfer yn yr ystafell ddosbarth. Wrth ddefnyddio fersiwn chwyddedig bydd angen mwy o sgrolio fwy na thebyg ac efallai y bydd angen cymorth ar y dysgwr gyda hynny (hynny yw, wrth ddefnyddio swyddogaeth chwyddo'r porwr; mae Windows Magnifier yn sgrolio'n awtomatig os defnyddir llygoden i we-lywio). Mae'r asesiadau wedi cael eu cynllunio er mwyn

nodi pan fydd angen sgrolio. I gael canllawiau pellach ar ddefnyddio'r offer chwyddo, gweler y canllawiau i ddefnyddwyr ar wefan yr asesiadau.

Newid lliw a chyferbyniad

Wrth drefnu asesiad i ddysgwyr, mae'n bosibl dewis o blith nifer o opsiynau gwahanol o ran lliw a chyferbyniad. Gall aelod o staff gymhwyso'r opsiynau o ran lliw a chyferbyniad wrth drefnu'r asesiadau ar wefan yr asesiadau. Dylai'r lliw a'r cyferbyniad a ddewisir fod yn unol â'r hyn y mae'r dysgwr yn ei ddefnyddio bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

Os nad yw'r trefniant hwn yn addas ar gyfer y dysgwr, yna gellir defnyddio droshaenau lliw ar sgrin y cyfrifiadur neu'r gliniadur (ond nid ar ddyfais llechen) neu gall y dysgwr ddefnyddio lensys hidlo lliw. Unwaith eto, dylai'r hyn a ddewisir adlewyrchu'r hyn a ddefnyddir fel arfer yn yr ystafell ddosbarth i'r dysgwr.

Defnyddio darllenwyr sgrin

Mae'r Asesiadau Personol Rhifed Cenedlaethol (Gweithdrefnol) wedi cael eu cynllunio i fod yn gydnaws â darllenwyr sgrin penodedig ac mae wedi cael eu profi â'r fersiynau diweddaraf o ddarllenydd sgrin JAWS (Job Access With Speech) ac â SuperNova. Mae testun amgen wedi cael ei ychwanegu at y delweddau lle y bo hyn yn briodol.

Dylid defnyddio darllenydd sgrin yn unol â'r hyn y mae'r dysgwr yn ei wneud fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Ni all darllenydd sgrin gael ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol, gan fod y rheini'n asesu sgiliau darllen y dysgwr.

Defnyddio diagramau cyffyrddadwy

Mae nifer fach o'r cwestiynau yn yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn gofyn am ddefnyddio diagramau cyffyrddadwy. Bu angen cynnwys y rhain er mwyn sicrhau y cwmpeisir y cwricwlwm i ddysgwyr sy'n defnyddio darllenwyr sgrin neu y mae eu hathro neu oedolyn arall yn darllen yr asesiadau yn uchel iddynt. Dylai'r llyfryn o ddiagramau cyffyrddadwy fod ar gael i'r dysgwr pan fydd yn sefyll yr asesiad. Dim ond os bydd y system yn dewis un o'r cwestiynau sy'n gofyn am ddiagram y bydd angen i'r dysgwr ddefnyddio'r llyfryn. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd angen cymorth ar y dysgwr i ddod o hyd i'r diagram cywir.

Gellir cael copïau o'r llyfryn o ddiagramau cyffyrddadwy drwy gysylltu â Desg Gymorth yr Asesiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru.

Llyfrynnau darllen Braille

I'r dysgwyr hynny sydd â nam ar eu golwg ac sydd fel arfer yn defnyddio deunyddiau Braille yn yr ystafell ddosbarth i ddarllen, mae deunyddiau Braille copi caled ar gael. Ar gyfer yr Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol, mae'r llyfrynnau Braille yn cynnwys y testunau darllen a'r cwestiynau. Bydd y system asesu'n procio'r dysgwr ynghylch pa destun a chwestiynau i'w defnyddio. Rhaid i'r atebion gael eu rhoi yn y system asesu, fel bod y system yn gallu dewis y

testun a'r cwestiynau priodol nesaf. Mae'n debygol y bydd angen defnyddio ysgrifennydd i roi atebion y dysgwr yn y system asesu.

Mae'r llyfrynnau Braille ar gael ar ffurf Braille gradd 1 a gradd 2. Gellir cael copïau o'r llyfrynnau drwy gysylltu â Desg Gymorth yr Asesiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru.

Defnyddio iaith arwyddion

Yn yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) gall unrhyw gwestiwn neu gyfarwyddyd gael eu harwyddo i'r dysgwr. Nid yw fersiynau o'r asesiadau sy'n defnyddio iaith arwyddion yn cael eu darparu oherwydd yr amrywiaeth eang o ieithoedd arwyddion a ddefnyddir yn gyffredin mewn ysgolion. Gellir defnyddio cymorth iaith arwyddion arferol y dysgwr i arwyddo testun i'r dysgwr. Gallwch arwyddo cwestiwn cyfan neu ran ohono a chofnodi ymatebion iaith arwyddion y dysgwr os yw'n briodol, ac os mai dyna'r hyn a wneir fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Yn yr Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol, dim ond y cyfarwyddiadau y gellir eu harwyddo i'r dysgwyr. Ni ellir darllen testunau a chwestiynau i'r dysgwr gan mai asesiad o sgiliau darllen y dysgwr yw diben yr asesiadau hynny.

Ysgrifenyddion

Gellir defnyddio ysgrifenyddion i ddysgwyr a fyddai'n cael y math hwn o gymorth yn yr ystafell ddosbarth fel arfer neu y mae angen ysgrifennydd arnynt o ganlyniad i nam diweddar. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid defnyddio ysgrifennydd i roi cymorth i ddysgwr:

- lle mae'r dysgwr yn defnyddio Braille
- lle na all y dysgwr yn gorfforol ddefnyddio bysellfwrdd
- lle mae gan y dysgwr nam echddygol neu lle mae ysgrifennu yn rhywbeth anghysurus yn gorfforol neu'n feddyliol.

Darllenwyr

Gellir darllen unrhyw gwestiwn neu gyfarwyddyd yn yr Asesiad Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn uchel i'r dysgwr.

Yn yr Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol, dim ond y cyfarwyddiadau y gellir eu harwyddo i'r dysgwyr. Ni ellir darllen testunau a chwestiynau i'r dysgwr gan mai asesiad o sgiliau darllen y dysgwr yw diben yr asesiadau hynny.

Cofrestru dysgwyr ar gyfer asesiadau heblaw'r rhai ar gyfer eu grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r asesiadau wedi'u personoli, sy'n golygu y bydd y system asesu yn dewis testun neu gwestiwn i'w cyflwyno i ddysgwr yn seiliedig ar ei ymateb i'r cwestiynau blaenorol. Mae hyn yn golygu y bydd yr asesiad yn addasu at lefel gallu'r dysgwr.

Pennir y cwestiwn cyntaf mewn asesiad gan grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol presennol y dysgwr fel arfer. Mae'n bosibl i'r athro ddad-wneud

anhawster y cwestiwn cychwynnol, a'i wneud yn haws na'r hyn a gyflwynir i ddysgwyr yn eu blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol fel arfer. Mae'r gallu i ddad-wneud ar gael i'r athro ar wefan yr asesiadau wrth drefnu asesiad i ddysgwr.

Noder, ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 2, y man cychwyn yn yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yw un o'r cwestiynau hawsaf yn y gronfa. Ar gyfer Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol, mae nifer o destunau a chwestiynau haws yn y gronfa wedi'u hanelu at ddysgwyr sy'n ei chael yn anodd gyflawni sgiliau darllen y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Ar gyfer yr Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol), mae nifer o gwestiynau sydd â chynnwys hawdd iawn i ddysgwyr Blwyddyn 2.

Ar gyfer dysgwyr na allant ateb y cwestiynau hyn, efallai y bydd yn amhriodol bwrw ymlaen â'r asesiad personol. Dylai athrawon arfer eu barn broffesiynol ac ystyried y canllawiau ar ddatgymhwyso yn Atodiad 7.

Atodiad 7: Datgymhwyso

Er mwyn gallu olrhain cynnydd dysgwyr mewn sgiliau darllen a rhifedd, bydd hyd yn oed camau bach o gynnydd fel y'i mesurir gan y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) a'r Asesiadau Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Asesiadau Personol Darllen Cenedlaethol yn ystyrlon. Felly, mae'n hollbwysig bod pob dysgwr sy'n gallu sefyll y profion/asesiadau personol yn cael gwneud hynny a chael cymorth i'w sefyll.

Fel rhan statudol o'r fframwaith asesu, mae'r Profion Cenedlaethol a'r asesiadau personol wedi cael eu cynllunio i'w gwneud yn bosibl i gynifer o ddysgwyr â phosibl eu sefyll ac mae disgwyliad y bydd bron bob dysgwr yn gwneud hynny. Er mwyn hwyluso hyn ac ymestyn nifer y dysgwyr sy'n gallu eu sefyll, mae amrywiaeth o drefniadau mynediad ar waith i roi cymorth i ddysgwyr ac mae cyfres o brofion ac asesiadau personol wedi'u haddasu hefyd ar gael. Fodd bynnag, efallai y bydd nifer fach o ddysgwyr, a fydd yn eithriadau, nad ydynt yn gallu cymryd rhan er gwaethaf y trefniadau hyn. Mae cyfrifoldeb ar ysgolion i wneud trefniadau i nodi dysgwyr nad ydynt yn gallu gweithio ar lefel y profion/asesiadau personol, a'r rhai sy'n gweithio ar y lefel honno ond nad ydynt (i) yn gallu eu sefyll, neu (ii) sy'n gallu eu sefyll ond dim ond o dan anfantais fawr. Bwriedir i'r adran hon o'r canllawiau helpu ysgolion i nodi dysgwyr o'r fath a chyflawni'r cyfrifoldeb hwn.

Y pennaeth sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylai dysgwr sefyll y prawf/asesiadau personol ai peidio. Wrth wneud penderfyniad, mae'n rhaid i'r pennaeth:

- ystyried y canllawiau statudol hyn
- fod wedi ystyried p'un a fyddai unrhyw rai o'r trefniadau mynediad sydd ar gael yn helpu'r dysgwr i sefyll y prawf/asesiadau personol
- fod wedi ceisio cymeradwyaeth gan ei gonsortiw m rhanbarthol cyfrifol (gan roi tystiolaeth i ategu ei benderfyniad).

Yn wahanol i'r trefniadau blaenorol, nid oes angen i benaethiaid wneud cyfarwyddyd yn datgymhwyso'r cwricwlwm cenedlaethol er mwyn gwneud hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i benaethiaid roi sylw i'r canllawiau statudol hyn ac ystyried p'un a fyddai unrhyw rai o'r trefniadau mynediad yn helpu'r dysgwr i sefyll y profion/asesiadau personol, ac mae'n rhaid eu bod wedi ceisio cymeradwyaeth gan eu consortiw m rhanbarthol neu eu hawdurdod lleol cyfrifol gan roi tystiolaeth i ategu eu penderfyniad o leiaf un mis calendr cyn y bwriedir gweinyddu'r prawf/asesiad personol. Caiff y defnydd o'r cyfleuster hwn ei fonitro ac efallai y bydd awdurdodau lleol yn ei herio os daw patrymau ymddangosiadol amhriodol o ddatgymhwyso yn dod i'r golwg – felly mae'n rhaid i dystiolaeth ategol gael ei chadw ar gyfer unrhyw benderfyniad.

Mae'n rhaid i bob penderfyniad ynghylch datgymhwyso gael ei wneud yn unigol, yn hytrach nag i gyd gyda'i gilydd, ac yn ôl teilyngdod yr achos. Ni chaiff dysgwr sy'n cael ei ddatgymhwyso rhag y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ei ddatgymhwyso'n awtomatig rhag yr Asesiad Personol Darllen Cenedlaethol neu

fel arall; nac, o ddatgymhwyso dysgwr rhag y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), ni ragdybir y caiff ei ddatgymhwyso rhag yr Asesiad Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol). Mae'n rhaid i bob achos gael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, yn dibynnu ar anghenion unigol y dysgwr hwnnw.

Ar gyfer yr Asesiad Personol Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Asesiad Personol Darllen Cenedlaethol, dylai penaethiaid gadw rhestr o achosion o ddatgymhwyso i'w chyflwyno i'r consortia rhanbarthol (sy'n gweithredu ar ran awdurdodau lleol) ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Dysgwyr na allant sefyll y profion/asesiadau personol hyd yn oed gydag addasiadau

Bydd anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion eraill rhai dysgwyr yn ddigon sylweddol neu ddifrifol fel na fyddant, ym marn y pennaeth, yn gallu sefyll y profion/asesiadau personol, neu y byddent o dan anfantais fawr. Efallai y bydd y dysgwr yn dal o dan anfantais o'r fath hyd yn oed os gwneir defnydd llawn o'r profion/asesiadau personol wedi'u haddasu sydd ar gael yn ogystal â chymhwyso'r trefniadau mynediad sydd ar gael a gwneud addasiadau rhesymol.

Mae hyn yn debygol iawn o ddigwydd lle mae dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog. Felly, gall penaethiaid benderfynu nad yw'n ofynnol i ddysgwyr o'r fath sefyll y profion/asesiadau personol.

Er mwyn penderfynu p'un a yw'n briodol datgymhwyso dysgwr o dan y maen prawf hwn ai peidio, dylai ysgolion ystyried p'un a yw dysgwyr yn gallu dangos unrhyw un o'r disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer y grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol y mae'r dysgwr ynddi neu, yn achos y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), y disgwyliadau ar gyfer y cam neu'r cyfnod allweddol perthnasol, ai peidio. Os bernir na fydd dysgwyr yn gallu bodloni unrhyw un o'r disgwyliadau perthnasol yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'u bod yn gweithredu sawl blwyddyn islaw'r lefel briodol ar gyfer eu grŵp blwyddyn, yna efallai y bydd datgymhwyso yn briodol.

Dysgwyr y mae adrannau perthnasol o'r cwricwlwm cenedlaethol wedi cael eu datgymhwyso mewn perthynas â nhw

Efallai fod rhai dysgwyr wedi cael datganiad AAA sydd (fel y darperir ar ei gyfer yn adran 113 o Ddeddf Addysg 2002) yn addasu neu'n datgymhwyso rhai agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol neu'r cwricwlwm cenedlaethol cyfan. Hefyd, o dan adrannau 113–116 o Ddeddf Addysg 2002, gall penaethiaid ddatgymhwyso'r cwricwlwm cenedlaethol dros dro i ddysgwr penodol os yw'n amhriodol, am y tro, gynnig y cwricwlwm cenedlaethol fel y mae'n gymwys i'r dysgwr ar y pryd. Lle mae datgymhwyso o'r fath yn cael effaith ar yr elfennau o'r cwricwlwm sy'n ymwneud â llythrennedd a/neu rifedd fel y byddai effaith andwyol ar allu'r dysgwr i sefyll y prawf/asesiadau personol, gall y pennaeth benderfynu nad oes angen i'r dysgwr hwnnw sefyll y prawf neu'r asesiadau personol.

Dysgwyr sy'n dod o systemau addysg gwahanol ac na ellir cadarnhau eu gallu i sefyll y profion/asesiadau personol

Os nad oes digon o amser i ysgol gadarnhau gallu dysgwr i sefyll y prawf/asesiadau personol cyn i gylch y profion ddechrau, e.e. am ei fod wedi

cyrraedd o system addysg wahanol yn ddiweddar, gall y pennaeth benderfynu nad oes angen i'r dysgwr hwnnw sefyll prawf/asesiadau personol y flwyddyn honno. **Dim ond** i brawf/asesiadau personol y flwyddyn honno y bydd y ddarpariaeth hon yn gymwys.

Datgymhwyso mewn perthynas â dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol

Datgymhwyso mewn perthynas â dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol

Dim ond i nifer gymharol fach o ddysgwyr sy'n dysgu Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol y byddai datgymhwyso yn briodol. Dylai unrhyw benderfyniad ynglŷn â datgymhwyso mewn perthynas â dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol gael ei drafod ymlaen llaw â'r swyddog perthnasol yn y consortiwm rhanbarthol.

Mae'n rhaid i benaethiaid sy'n dewis yr opsiwn hwn fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau eu penderfyniad i rieni/gofalwyr y dysgwr. Wrth wneud penderfyniad, mae'n rhaid i'r pennaeth wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r canllawiau statudol hyn
- ystyried p'un a fyddai unrhyw un o'r trefniadau mynediad yn helpu'r dysgwr i sefyll y prawf/asesiadau personol
- ceisio cymeradwyaeth gan eu consortiwm rhanbarthol cyfrifol (gan roi tystiolaeth i ategu eu penderfyniad).

Dysgwyr sy'n newydd i system addysg Prydain

Ni ellir datgymhwyso 'dysgwyr o gyfundrefn addysg heb fod yn seiliedig ar y Gymraeg/Saesneg' rhag y profion/asesiadau personol am y rheswm hwn yn unig. Mae'r Profion Cenedlaethol a'r asesniadau personol at ddefnydd ffurfiannol ac felly mae'n rhaid i bob dysgwr sefyll y profion/asesiadau personol oni phenderfynir na allant eu sefyll, neu na all yr ysgol asesu eu gallu i wneud hynny, fel y'i hamlinellir eisoes. Mae'n rhaid i ganlyniadau dysgwyr gael eu cyflwyno yn y modd priodol fel rhan o broses Casglu Data Profion Cenedlaethol Cymru. Mae canlyniadau dysgwr sydd â statws 'dysgwr o gyfundrefn addysg heb fod yn seiliedig ar y Gymraeg/Saesneg' wedi'u cynnwys ystadegau ar lefel genedlaethol yn unig. Ni chaiff ystadegau cyfunol ar ysgolion ac awdurdodau lleol eu cyhoeddi mwyach ar gyfer y Profion Cenedlaethol.